



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru

Canllawiau



Mai 2015

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad	3
Cefndir	3
Diben y canllawiau hyn	3
Datblygu'r canllawiau hyn	4
At bwy mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu?	5
Diffiniadau	5
Adran 2: Ble i ddechrau?	8
Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am y safle	8
Rheolwyr 'mewnol'	8
Rheolwyr o dan gontract	8
Prydlesau safle	9
Penderfynu pwy ddylai reoli'r safle	10
Recriwtio Rheolwr Safle	10
Cymwysterau	10
Hyfforddiant	10
Dod yn gyfrifol am safle	11
Rhanddeiliaid	12
Y Safle	12
Cyllid Safleoedd	13
Adran 3: Cydweithio	14
Amcanion y Safle	14
Cynnal a chadw	14
Y Berthynas rhwng Preswylwyr a Rheolwr y Safle	15
Y Berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a Rheolwr y Safle	16
Cymdeithasau Preswylwyr	17
Adran 4: Ceisiadau a Dyraniadau	18
Ceisiadau	18
Rhestrau Aros	20
Dyraniadau	21
Aseinio ac Olyniaeth (Lleiniau preswyl parhaol yn unig)	21

Adran 5: Cyrraedd y Safle	23
Enghraifft o Restr Gyfeirio ar gyfer y broses sefydlu:	25
Adran 6: Cytundeb Llain	27
Adran 7: Ffioedd Safleoedd	30
Ffioedd Lleiniau a chostau eraill	30
Credyd Cynhwysol / Budd-dal Tai	31
Adran 8: Cynnal a Chadw'r Safle	32
Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw	32
Adran 9: Gwasanaethau a Chyfleustodau ar y safle	34
Cyflenwadau Nwy a Thrydan a Thalu	34
Cyflenwad Dŵr a Thalu	35
Casglu Gwastraff ar y safle	36
Darparwyr Gwasanaethau 'Allgymorth'	36
Yr Heddlu	37
Gwasanaethau Brys Eraill	37
Gwasanaethau Post	38
Y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr Ehangach	38
Diogelwch safleoedd	39
Adran 10: Defnyddio'r Safle	40
Absenoldeb Byrdymor	40
Ymwelwyr	40
Anifeiliaid	40
Safleoedd gwaith a phreswyl cymysg	41
Adran 11: Ymddygiad ar y safle	42
Adran 12: Gadael Safle	43
Adran 13: Ymgynghori a Chwynion	44
Ymgynghori ac Ymgysylltu	44
Cwynion	45
Atodiad 1 – Sefydliadau Cymorth	46

Adran 1: Cyflwyniad

Cefndir

1.1 Mae *'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'* ("y Fframwaith") yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn yng nghymdeithas Cymru. Mae'r Fframwaith hefyd yn ceisio sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu, eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd fwy strategol. Drwy'r Fframwaith rydym yn ceisio datblygu a gwella mynediad at wasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y gwahaniaethau diwylliannol sydd yn aml wedi golygu bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol, ac rydym am sicrhau bod llais y cymunedau hyn yn cael ei glywed wrth ddarparu gwasanaethau.

1.2 Mae *Teithio at Ddyfodol Gwell* yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ariennir yn gyhoeddus yn cael eu gwella i safon resymol (amcan 2). Cyflawnir yr ymrwymiad hwn gyda'r arian sy'n dal i fod ar gael o dan y Grant Cyfalaf Safleoedd ar gyfer adnewyddu safleoedd sy'n bodoli'n barod a datblygu safleoedd newydd. Yn ystod 2013, pasiwyd deddfwriaeth gan y Cynulliad i gydgrynhoi telerau meddiannu cartrefi symudol preswyl hefyd, sydd wedi rhoi deiliadaeth fwy sicr a hawliau eraill i breswylwyr y safleoedd hyn. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i ddiwygio ein *'Canllaw Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn-Theithwyr yng Nghymru'*, yn ystod 2014.

1.3 Oherwydd newidiadau mewn polisi bu'n rhaid cyflwyno canllawiau newydd sy'n dwyn y teitl, *Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*, yn lle'r canllawiau presennol *'Canllaw Arfer Da'*. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau wedi'u diweddarau i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys sut i gydymffurfio â thelerau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Diben y canllawiau hyn

1.4 Ar adeg cyhoeddi, mae 19 o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru y mae Awdurdodau Lleol yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu. Mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli mewn 13 o ardaloedd Awdurdodau Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu oddeutu £8.85 miliwn ers 2009 drwy arian y Grant Cyfalaf Safleoedd ar gyfer adnewyddu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sydd eisoes yn bodoli i safon resymol. Mae'r arian hefyd yn helpu i greu safleoedd newydd gan Awdurdodau Lleol.

1.5 Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i'r gwaith o ddarparu safleoedd fynd law yn llaw â threfniadau rheoli safleoedd da. Mae Llywodraeth Cymru am hybu a chefnogi'r broses o rannu arferion da a dulliau cyson o reoli llety Sipsiwn a Theithwyr. Nod y canllawiau hyn yw cynnig adnodd defnyddiol i helpu i gyflawni hyn ar gyfer safleoedd presennol a newydd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr.

1.6 Dylai'r canllawiau hyn fod yr un mor ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol sy'n bwriadu datblygu safleoedd newydd a'r rheini sydd eisoes yn rheoli safleoedd. Dylid eu defnyddio fel sail i hwyluso trefniadau da wrth reoli safleoedd. Y nod yw hybu dulliau cadarnhaol, realistig ac ymarferol o ymdrin â materion a all godi wrth reoli safleoedd yn sgil diffyg buddsoddi, esgeulustod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid yw'n fwiad gan Lywodraeth Cymru i orfodi'r un atebion ar bob safle, gan y gall sefyllfaoedd amrywio'n fawr mewn safleoedd ledled Cymru.

1.7 Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn helpu Awdurdodau Lleol ac eraill i ddatblygu a gwella safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd cydymffurfiaeth â'r canllawiau hyn yn un o brif ystyriaethau Llywodraeth Cymru wrth roi grantiau mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

1.8 Dylai'r canllawiau hyn, *Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*, gael eu defnyddio ar y cyd â chanllawiau *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru*¹ Llywodraeth Cymru (cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel y "Canllawiau ar Safleoedd").

1.9 Bydd ystyried y Canllawiau ar Safleoedd yn helpu i sicrhau bod safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru:

- yn gynaliadwy, wedi'u rheoli'n dda a bod gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac nad yw bob amser yn adweithiol;
- yn cyfateb i safonau a ddisgwylid ar safleoedd cartrefi symudol nad ydynt wedi'u darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; ac
- yn creu'r amodau sydd eu hangen i hybu a meithrin cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog, a rhwng preswylwyr a pherchnogion / rheolwyr safle.

Datblygu'r canllawiau hyn

1.10 Mae'r canllawiau hyn yn disodli '*Canllaw Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru*', a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol ledled Cymru, gan gynnwys staff tai, cynllunio, iechyd yr amgylchedd ac addysg Awdurdodau Lleol. Ymgynghorwyd â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr hefyd, a chynhaliodd swyddogion nifer o ymweliadau â safleoedd mewn lleoliadau gwledig a threfol er mwyn ymchwilio i'r ddarpariaeth o safleoedd. Ystyriwyd enghreifftiau eraill o ddylunio a rheoli yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon hefyd.

1.11 Mae'r canllawiau diwygiedig yn ymgorffori egwyddorion *Teithio at Ddyfodol Gwell*, ac yn cynnwys newidiadau sylweddol sy'n seiliedig ar ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisiers i'r canllawiau blaenorol gael eu cyhoeddi yn 2009.

1.12 Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cymharu safonau â'r rheini y gall y gymuned sefydlog ddisgwyl eu cael o ran tai. Yn y rhan fwyaf o achosion gwneir cymhariaeth yn uniongyrchol â mathau eraill o safleoedd Cartrefi Symudol, ond mewn rhai achosion mae'n briodol cymharu â darpariaeth tai cymdeithasol. Bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu yn 2020 (fan hwyraf), mewn perthynas â deddfwriaeth, polisiau a thystiolaeth berthnasol.

1.13 Drwy *Teithio at Ddyfodol Gwell*, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i "*sicrhau bod llety priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.*" Hefyd, ymestynnwyd y diffiniad o 'safleoedd gwarchodedig' yn ystod 2013 i gynnwys safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, gan roi'r un sicrwydd deiliadaeth i breswylwyr y safleoedd hyn.

1.14 Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni gofynion Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ac i ddatblygu safleoedd sy'n cael eu rheoli'n dda i'r preswylwyr eu mwynhau.

¹ Llywodraeth Cymru, canllawiau 'Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr', <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/sites/?skip=1&lang=cy>

At bwy mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu?

1.15 Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at y rheini sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd a chyfrifoldeb gweithredol dros safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y mae Awdurdodau Lleol yn berchen arnynt neu mae Awdurdodau Lleol yn eu prydlesu. Mae hyn yn debygol o gynnwys 'rheolwr safle' a 'rheolwr gweithredol' mwy strategol o fewn Awdurdodau Lleol.

1.16 Yn y ddogfen hon, defnyddir y term '**rheolwr safle**' i ddisgrifio unrhyw un sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros redeg y safleoedd hyn i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd ystyr y term hwn a theitl y swydd yn amrywio o'r naill Awdurdod Lleol i'r llall. Gall y rolau a'r cyfrifoldebau a nodir yn y ddogfen hon fod yr un mor berthnasol i 'ofalwr' safle neu 'warden' safle ag y maent i reolwr safle. Efallai y bydd y rolau a'r cyfrifoldebau a nodir isod wedi'u rhannu rhwng gwahanol rolau. Er enghraifft, efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu mai rheolwr y safle ddylai gyflawni rhai tasgau, ond y byddai'n well pe byddai tasgau eraill yn cael eu cyflawni gan ofalwr y safle. Awdurdodau Lleol fydd yn penderfynu ar yr hyn sy'n briodol i'w hanghenion lleol.

1.17 Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi creu swydd warden safle answyddogol ar gyfer pennaeth y teulu estynedig sy'n meddiannu'r safle. Er y gall rhai o'r cyfrifoldebau a nodir yn y canllawiau hyn fod yn berthnasol i'r swyddi hyn, mae'n debygol y bydd llawer o'r cyfrifoldebau a hyrwyddir yn y canllawiau hyn yn cael eu rhoi yn nwylo'r rheolwr gweithredol. Bydd hyn yn debygol iawn pan nad yw'r warden safle answyddogol yn cael tâl.

1.18 Bydd y '**rheolwr gweithredol**' yn swyddog Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y safleoedd hyn. Strwythur penodol yr Awdurdod Lleol fydd yn pennu pwy fydd yn gyfrifol, gan fod y gwaith o reoli'r safleoedd hyn yn aml yn amrywio rhwng adrannau tai ac ystadau.

1.19 Mae'n bosibl y bydd rhai Awdurdodau Lleol sydd â safleoedd bach i Sipsiwn a Theithwyr yn dewis peidio â chreu rôl benodol ar gyfer 'rheolwr y safle'. Er hynny, bydd y cyfrifoldebau a nodir yn y ddogfen hon yn dal yn berthnasol i Awdurdodau Lleol sy'n rhedeg a / neu'n rheoli'r safleoedd hyn. Felly, pan mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at gyfrifoldebau 'rheolwr y safle', dylai Awdurdodau Lleol nad oes ganddynt y rôl benodol honno ddechongli'r cyfrifoldebau hynny fel rhai rheolwr gweithredol yn lle hynny.

1.20 Os bydd Awdurdod Lleol wedi dewis penodi rheolwr o dan gontract allanol i redeg y safle o ddydd i ddydd, dylai'r rheolwr gweithredol geisio sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau hyn. Yr Awdurdod Lleol fydd yn dal yn gyfrifol am reoli'r safleoedd hyn.

1.21 Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i'r gwaith o reoli safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr, hyd y gellir, gael ei brif ffrydio â mathau eraill o dai cymdeithasol. O gofio hynny, argymhellir yn gryf mai Adran Dai'r Awdurdod Lleol ddylai fod yn gyfrifol am swyddogaeth rheolwr y safle, rheolwr gweithredol ac, yn wir, safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr.

Diffiniadau

1.22 Cyn trafod nodweddion safle llwyddiannus, mae'n syniad da diffinio beth mae safle Sipsiwn a Theithwyr yn ei olygu. Yn syml, ystyr safle yw ardal o dir sy'n cael ei drefnu a'i ddefnyddio ar gyfer cartrefi symudol Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n rhaid i safle awdurdodedig gael y caniatâd cynllunio cywir er mwyn iddo gael ei ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr.

1.23 Bydd safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y mae Awdurdodau Lleol yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu yn ddarostyngedig i delerau gwahanol i'r rheini sy'n berthnasol i fathau eraill o safleoedd Cartrefi Symudol preifat. Gall safleoedd preifat fod yn safleoedd awdurdodedig hefyd os oes ganddynt y caniatâd cynllunio cywir.

1.24 Ystyr datblygiadau diawdurdod yw safleoedd o dan berchenogaeth breifat sydd wedi cael eu datblygu heb y caniatâd cynllunio priodol. Mae gweryslyoedd diawdurdod yn ymwneud â defnyddio tir i fyw arno heb ganiatâd y tîrfeiddianwyr neu'r meddianwyr.

1.25 Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o safleoedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/sites/?skip=1&lang=cy>

1.26 Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n llwyr ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y mae Awdurdodau Lleol yn berchen arnynt neu mae Awdurdodau Lleol yn eu prydlesu.

1.27 Mae'r ymadrodd 'Sipsiwn a Theithwyr' wedi cael ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd gwahanol mewn deddfwriaeth a chanllawiau. Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r diffiniad cyfun o Sipsiwn a Theithwyr a geir o dan adran 62 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

1.28 Dyma mae 'Sipsiwn a Theithwyr' yn ei olygu –

- (a) *Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys –*
 - (i) *Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a*
 - (ii) *Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a*
- (b) *Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.*

1.29 Nod y diffiniad uchod yw sicrhau bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu cynnwys, yn ogystal â'r rheini o unrhyw grŵp ethnig sy'n arfer ffordd nomadig o fyw. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys Siewmyn Teithiol. Gallai pobl eraill hefyd berthyn i'r diffiniad os gallant ddangos traddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol. Nid oes angen iddynt o reidrwydd ddangos eu bod yn arfer ffordd nomadig o fyw yn barhaus er mwyn cael eu hystyried yn Sipsiwn neu'n Deithwyr at ddibenion y canllawiau hyn.

1.30 Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf mewn cymdeithas, gyda chanlyniadau iechyd ac addysg sylweddol is na rhai'r boblogaeth sefydlog. Pan fydd Sipsiwn a Theithwyr yn gallu ymgartrefu mewn safleoedd sydd wedi'u rheoli ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, mae tystiolaeth yn awgrymu² eu bod yn gallu cael gwell mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg a bod hyn yn arwain at ansawdd bywyd gwell.

1.31 Fel y cydnabyddir gan Estyn³, dylai plant gael budd o lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad gwell yn y system addysg oherwydd bydd gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu meithrin cysylltiadau sefydlog, llawn ymddiriedaeth â theluoedd.

² Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review,' (2009)

³ Estyn, 'Addysg Disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr – Diweddariad ar y Ddarpariaeth mewn Ysgolion Uwchradd' (2011)

1.32 Bydd iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn gwella, er enghraifft, drwy fanteisio ar ofal iechyd ataliol, gan gynnwys brechu plant am fod ymwelwyr iechyd yn gallu cysylltu â theuluoedd nad oeddent yn gallu cysylltu â hwy o'r blaen. Hefyd, mae Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o integreiddio'n well wrth i unigolion ddefnyddio cyfleusterau lleol, sydd hefyd yn gallu golygu bod plant yn llai tebygol o orfod byw neu chwarae mewn amgylcheddau sydd heb fod yn ddiogel.

1.33 Yn bwysicach na dim, bydd llawer mwy o Sipsiwn a Theithwyr yn gallu cael gafael ar lety sy'n ddiwylliannol briodol. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth briodol i gyfraith achosion sy'n ymwneud â Hawliau Dynol, ac yn ategu Amcan 6 yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru drwy adlewyrchu anghenion y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy ddiwallu anghenion tai.

1.34 Mae'r canllawiau hyn yn trafod cyfrifoldebau gwahanol o ran lleiniau preswyl parhaol a lleiniau tramwy ar safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr. Mae gan breswylwyr 'lleiniau preswyl parhaol' hawl i aros ar y llain drwy gyfnod y cytundeb llain â'r Awdurdod Lleol, ar yr amod na fydd y cytundeb yn cael ei derfynu oherwydd bod yr amodau wedi cael eu torri. Dim ond am hyd at 3 mis y caiff meddianwyr 'lleiniau tramwy' aros ar y llain. Mae holl fanylion y telerau ar gyfer y lleiniau hyn wedi'u nodi ym Mhenodau 3 a 4 Atodlen 2, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.⁴

1.35 Yn y canllawiau hyn, mae 'cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid' yn cyfeirio at drefniadau cyflenwyr cyfleustodau ar gyfer creu contract â phreswilydd neu feddiannydd y llain. Mae hyn yn cynnwys rhoi biliau i'r preswilydd yn uniongyrchol a chael taliadau yn uniongyrchol ganddo, yn hytrach na drwy law perchennog y safle.

⁴ Er eglurder, mae 'lleiniau preswyl parhaol' yn berthnasol i 'lleiniau parhaol' o dan Bennod 4, Atodlen 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Adran 2: Ble i ddechrau?

Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am y safle

2.1 Mae gan berchennog neu ddeiliad prydles y safle gyfrifoldeb dros waith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gan gynnwys gwaith atgyweirio a chydymffurfio â thelerau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Ar safleoedd Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am hynny (cyfeirir ato fel "perchennog y safle" yn y ddogfen hon).

2.2 Efallai y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr oherwydd bod anghenion heb eu diwallu a diffyg opsiynau eraill awdurdodedig wedi cael eu nodi yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").⁵ Mae Deddf 2014 hefyd yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau o dan adran 56 o Ddeddf 2013 i'r graddau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu darparu i fodloni anghenion heb eu diwallu.

2.3 Ar ôl i safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr gael eu datblygu, cyfrifoldeb perchennog y safle yw penderfynu sut bydd y safle'n cael ei reoli.

2.4 Mae tri opsiwn sylfaenol ar gyfer rheoli safle:

- Yn fewnol;
- O dan gontract;
- Prydlesau safle.

Rheolwyr 'mewnol'

2.5 Gallai'r rheolwyr 'mewnol' fod yn staff sy'n gweithio i'r Awdurdod Lleol ac sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol. Dylai'r Awdurdodau Lleol fod yn ffyddiog bod gan y sawl a benodir y profiad angenrheidiol ym maes rheoli tai a / neu brofiad o ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Rheolwyr o dan gontract

2.6 Efallai y bydd perchennog y safle yn penderfynu mai gosod 'contract allan' i sefydliad allanol fyddai'r ffordd fwyaf priodol o reoli safle. Dylid ystyried rheolwyr o dan gontract yn ofalus oherwydd yr Awdurdod Lleol fydd yn dal yn bennaf gyfrifol am reoli safle, fel y perchennog.

2.7 Dylai trefniadau contractio ddilyn polisi caffael yr Awdurdod Lleol ei hun. Os bydd rheolwyr allanol yn cael eu cyflogi, dylai'r Awdurdod Lleol lunio contract sy'n caniatáu iddo arfarnu perfformiad y rheolwr yn rheolaidd yn unol ag amcanion y cytunwyd arnynt.

2.8 Dylai'r Awdurdod Lleol wneud yn siŵr ei fod yn gallu terfynu'r contract os bydd perfformiad gwael yn cael ei gofnodi. Dylai'r contract ddarparu bod rhaid cydymffurfio â Deddf 2013 a bod rhaid i'r holl bolisiâu a'r 'Telerau Datganedig' a luniwyd gan y rheolwr gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol cyn iddynt gael eu cynnig i breswylwyr. Wrth benodi rheolwr allanol a llunio contract, dylai'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon y bydd

⁵ Llywodraeth Cymru, canllawiau ar gyfer 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr', <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/accommodation-needs/?lang=cy>

pob polisi ac arfer priodol ar waith. Mae hyn yn cynnwys cadw cyfrifon, gwaith cynnal a chadw ac lechyd a Diogelwch, er enghraifft.

2.9 O ran trefniadau rheoli o dan gontract, gall Llywodraeth Cymru ofyn am gopi o'r contract pan gyflwynir ceisiadau am arian o dan y Grant Cyfalaf Safleoedd.⁶ Bydd hyn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru fod yn fodlon y bydd y safleoedd sy'n cael buddsoddiad yn cael eu rheoli'n briodol.

2.10 Efallai y bydd y rheolwr safle a gyflogir yn aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a'i fod hefyd yn byw ar y safle. Os yw'r rheolwr yn byw ar y safle, mae'n bwysig gwneud yn siŵr ei fod yn cael hyfforddiant priodol a digonol (gweler yr adran Hyfforddiant isod).

2.11 Dylai Awdurdodau Lleol ystyried effaith penodi rheolwr 'preswyl' ar breswylwyr presennol y safle. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod y sawl a benodir yn gallu cydymffurfio â pholisïau Cyfle Cyfartal ac nad yw'n dangos ffafriaeth tuag at un teulu neu grŵp penodol o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd angen i reolwyr preswyl gael manau gweithio a byw ar wahân.

Prydlesau safle

2.12 Ffordd arall o reoli safle yw drwy brydlesu safle. O dan y trefniant hwn bydd gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb cyfartal i gydymffurfio â Deddf 2013, neu i barhau i wneud hynny, p'un a yw'n berchen ar y safle neu'n ei brydlesu.

2.13 Ar hyn o bryd, mae un enghraifft o safle o dan berchnogaeth breifat sy'n cael ei brydlesu i Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae'r safle hwnnw wedi'i gynnwys o dan gwmpas y trefniadau hyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw enghreifftiau o safleoedd sydd o dan berchnogaeth Awdurdod Lleol sy'n cael eu prydlesu i sefydliadau eraill yng Nghymru.

2.14 Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am brydlesu eu safleoedd i sefydliadau sydd wedi cael profiad penodol o weithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a rheoli'r safleoedd hyn, pan nad oes gan yr Awdurdod Lleol ddigon o brofiad o hynny ei hun.

2.15 Gall partneriaethau o'r fath gynnig gwell gwerth am arian a chysylltiadau gwell â phreswylwyr, ond mae'n hollbwysig ymgynghori'n llawn â'r preswylwyr ynghylch unrhyw newid o'r fath. Mae Deddf 2013 yn mynnu bod pob mater sy'n ymwneud â gweithredu neu reoli'r safle yn destun ymgynghoriad â chymdeithas preswylwyr gymwys. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell yn gryf y dylid ymgynghori â phreswylwyr ar faterion o'r fath p'un a ydynt yn gymwys fel cymdeithas preswylwyr ai peidio.

2.16 Mae'r math hwn o drefniant rheoli yn wahanol i werthu safleoedd gan y byddai'r Awdurdod Lleol yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y safle'n cael ei reoli'n briodol ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol.

2.17 I fod yn gymwys i gael arian o dan Grant Cyfalaf Safleoedd Llywodraeth Cymru, byddai angen i'r telerau penodol ar gyfer Safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2013, fod yn berthnasol i'r safleoedd hyn.

⁶ Llywodraeth Cymru, 'Sites Capital Grant guidance notes' <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/sites-capital-grant/?skip=1&lang=cy>

Penderfynu pwy ddylai reoli'r safle

2.18 Dylid ymgynghori â phreswylwyr y safle wrth benderfynu ar yr opsiwn rheoli. Fel meddianwyr y safle, bydd gan y preswylwyr safbwyntiau pwysig ar yr ateb mwyaf priodol ac ymarferol. Mae profiadau blaenorol o drefniadau rheoli o dan gontract yng Nghymru wedi arwain weithiau at beidio â buddsoddi ddigon yn y gwaith o gynnal a chadw safleoedd, ac mae tystiolaeth anecdotaidd o gysylltiadau gwael â phreswylwyr y safle. Fodd bynnag, efallai y bydd ymgynghori â'r preswylwyr o dan sylw yn cynnig atebion i broblemau blaenorol.

2.19 Mae'n bosibl y bydd priodoldeb yr opsiynau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar arbenigedd y staff mewnol a safbwyntiau preswylwyr y safle. Drwy barhau i reoli'r safle'n uniongyrchol, bydd modd sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol yn gynnar o unrhyw bryderon neu faterion cynnal a chadw. Bydd y trefniant hwn hefyd yn helpu i brif ffrydio'r broses o reoli'r safleoedd hyn gan efelychu, hyd y gellir, y ffordd mae stoc tai cymdeithasol yn cael ei rheoli. Ni ddylai penderfyniad i reoli'r safle o dan gontract neu brydlesu'r safle fyth gael ei wneud dim ond ar y sail y gallai'r trefniant hwn arbed arian i'r Awdurdod Lleol. Er bod hynny'n un ffactor yn ystyriaethau'r Awdurdod Lleol, dim ond os yw o'r farn mai dyna'r opsiwn mwyaf priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau hyn a bod y safle'n cael ei reoli yn y ffordd fwyaf effeithiol y dylai'r Awdurdod Lleol wneud penderfyniad o'r fath.

2.20 Os bydd sefydliad yn rheoli'r safle o dan gontract, dylai Awdurdodau Lleol ystyried pa mor addas yw darpar reolwr y safle ar gyfer y rôl.

Recriwtio Rheolwr Safle

2.21 Dylai'r broses recriwtio fod yn agored ac yn deg a sicrhau cyfle cyfartal. Os bydd rheolwr allanol yn cael ei benodi ar gyfer rôl rheolwr y safle, dylid ystyried amrywiaeth o gyfryngau hysbysebu er mwyn i'r broses recriwtio fod yn agored i bawb, gan gynnwys cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr neu breswylwyr safle. Er enghraifft, dylid ystyried hysbysebu'r cyfle mewn cyhoeddiadau cymunedol, fel Travellers' Times. Dylid rhoi hysbyseb yn y safle ei hun hefyd er mwyn i'r preswylwyr fod yn ymwybodol o'r cyfle.

Cymwysterau

2.22 Dylai Awdurdodau Lleol ddilyn eu gweithdrefn recriwtio eu hunain ar gyfer rôl rheolwr y safle, fel y bo'n briodol. Dylid cydnabod y gallai gofyniad am gymwysterau ffurfiol rwystro llawer o Sipsiwn neu Deithwyr rhag bod yn ymgeiswyr cymwys. Mae'n bosibl y bydd angen lefel sylfaenol o sgiliau Mathemateg a Saesneg er mwyn sicrhau bod modd cyflawni tasgau gweinyddol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae profiad o reoli tai a phrofiad o weithio'n uniongyrchol gyda Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o fod ymhlith y profiadau mwyaf defnyddiol ar gyfer y rôl hon. Hefyd bydd rhaid cael ymrwymiad cadarn i gyfle cyfartal a chydlyniant cymunedol – gan gynnwys mewn cymunedau a rhwng cymunedau – a chyfathrebu'n glir â phreswylwyr.

2.23 Gall swydd rheolwr safle fod yn rôl anodd, a dylai'r ymgeiswyr fod yn barod ar gyfer hynny. Mae'n bwysig bod y rheolwr yn gyson ac yn seilio'i benderfyniadau ar bolisiau'r Awdurdod Lleol a thelerau cytundebau lleiniau.

2.24 Dylai Awdurdodau Lleol ystyried o ddifrif gynnwys panel o breswylwyr y safle fel rhan o'r cyfweiliad â rheolwr y safle. Neu, gellid gwahodd ymgeiswyr i ymweld â'r preswylwyr

yn y safle, os bydd y preswylwyr yn cytuno ar hynny. Gallai'r camau gweithredu hyn fod yn dystiolaeth ddefnyddiol o brofiad yr ymgeisydd a sut mae'n rhyngweithio ag aelodau o'r cymunedau hyn, a bod yn sylfaen gadarn ar gyfer cysylltiadau â'r rheolwr safle llwyddiannus. Fodd bynnag, dylai aelodau'r panel preswylwyr fod yn ymwybodol y bydd eu barn yn rhan o banel ehangach, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol (a'r sefydliad sydd â'r contract rheoli o bosibl). Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn gallu dangos y gallant gydymffurfio â deddfwriaeth, polisiau a gweithdrefnau yn amlwg yn anaddas.

2.25 Dylai darpar reolwyr allu dangos eu bod yn gallu llunio barn gadarn a chytbwys, yn enwedig o dan bwysau. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried senarios i sicrhau y gall yr ymgeiswyr ddangos sut byddent yn ymateb i broblem bosibl, fel gwersyll ar ran gymunedol o'r safle.

2.26 Dylai darpar reolwyr hefyd allu dangos bod ganddynt sgiliau rhyngbersonol datblygedig er mwyn cyfathrebu â phob rhanddeiliad mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn ogystal ag ennyn ymddiriedaeth y preswylwyr.

2.27 Dylid rhoi gwybod i bob ymgeisydd y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, ac felly y bydd y penodiad yn amodol ar archwiliad Datgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt).

Hyfforddiant

2.28 Ar ôl penodi rheolwr safle, dylid ystyried ei anghenion hyfforddi. Dylai'r cyflogwr gynnig hyfforddiant lechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf a Diogelwch rhag Tân (gan gynnwys sut mae defnyddio a phrofi offer sy'n cael ei gadw ar y safle). Mae'n debygol y bydd angen i reolwyr safle gynnal asesiadau risg, felly bydd rhaid iddynt gael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallant gael eu hystyried yn gymwys i gynnal yr asesiadau hyn.

2.29 Dylid rhoi hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol ynghyd â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan ei bod yn hanfodol ei fod yn deall ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr er mwyn gallu rheoli'r safle yn sensitif ac yn llwyddiannus ac ennyn parch preswylwyr y safle. Os nad oes gan y rheolwr gefndir Sipsi neu Deithiwr, dylai'r hyfforddiant hwn fod yn orfodol. Mae'r hyfforddiant hwn yn aml ar gael gan sefydliadau sy'n cefnogi'r cymunedau hyn, fel y rheini sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1. Dylai hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb hefyd helpu reolwyr safle i ystyried sut i ymateb i anghenion preswylwyr hyn neu anabl (er enghraifft) sy'n byw ar y safle.

2.30 Dylai Rheolwyr Safle fod yn gwbl ymwybodol o ddeddfwriaeth troseddau casineb a gwarchod Sipsiwn a Theithwyr yn adrannau 145 a 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae Cymorth i Ddiodeffwyr Cymru yn cynnal rhaglen hyfforddiant am ddim (<http://www.reportheate.victimsupport.org.uk/one-hour-hate-crime-workshop/>), a gellir ei defnyddio i sicrhau bod rheolwyr safle yn deall y materion o dan sylw.

2.31 Gallai hyfforddiant arall, fel sut mae cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth, fod yn ddefnyddiol o ran y wybodaeth berthnasol y bydd angen i reolwyr safle ei thrin a'i phrosesu.

2.32 Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol recriwtio rheolwr safle newydd yn gynnar er mwyn iddo allu cysgodi rheolwyr safle presennol yn safleoedd eraill yr Awdurdod Lleol. Gallai hyn fod yn brofiad gwerthfawr cyn dechrau ar ei waith fel y rheolwr newydd.

2.33 Byddai hyfforddiant ehangach yng nghyd-destun tai cymdeithasol hefyd yn rhoi darlun cyffredinol o faterion tai, a hefyd yn gyfle i'r rheolwr newydd ymgyswrtu â materion a pholisïau tai cyffredinol a chyfredol. Byddai hyfforddiant o'r fath yn helpu i sicrhau na chaiff safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eu rheoli ar wahân i ddulliau gweithredu cyffredin a datblygiadau mewn mathau eraill o ddarpariaeth tai cymdeithasol.

2.34 Dylai rheolwr y safle Sipsiwn a Theithwyr fod mewn sefyllfa i roi cyngor i'r preswylwyr ar faterion fel sut mae cael cyngor ynghylch Credyd Cynhwysol / Lwfans Tai Lleol. Yn gyffredinol, mae lefel llythrennedd mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn dal yn is nag ymhlith y boblogaeth ehangach, ac mae'n gallu bod yn anodd llenwi'r ffurflenni hyn. Dylai rheolwr y safle allu bod yn bwynt cyswllt addas a fydd yn gallu helpu'r preswylwyr. Fodd bynnag, ni ddylai rheolwyr safle gynghori preswylwyr ynghylch beth y dylent ei hawlio na llofnodi'r datganiad. Efallai y bydd rheolwyr safle am gyfeirio at ganllawiau Cyngor ar Bopeth ynghylch sut mae llenwi'r ffurflenni hyn yn gywir. Mae'r canllawiau ar gael yn: www.adviceguide.org.uk

Dod yn gyfrifol am safle

2.35 Cyn dod yn gyfrifol am safle newydd, dylai rheolwr ddeall y safle ac ymchwilio iddo gymaint â phosibl. Dylai weithio gyda pherchennog y safle ac, os bydd yn briodol ac yn bosibl, gyda rheolwr presennol y safle er mwyn dod i adnabod y safle a'r preswylwyr.

2.36 Gellir deall ychydig o hanes llawer o safleoedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy ddarllen adroddiad gan Pat Niner a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 'Accommodation Needs of Gypsy-Travellers in Wales' ("adroddiad Niner").⁷

Rhanddeiliaid

2.37 Dylai rheolwr y safle fod yn ymwybodol o randdeiliaid y safle a meithrin cysylltiadau da â hwy. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys:

- adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol;
- preswylwyr y safle;
- y gymuned dai gyfagos;
- y gymuned fusnes gyfagos;
- darparwyr gwasanaethau i'r safle; a
- gwasanaethau brys.

2.38 Bydd cydnabod a datblygu'r cysylltiadau hyn yn hybu cydlyniant cymunedol ac yn helpu rheolwr y safle i sylweddoli os bydd unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau ac i ddatblygu atebion posibl.

Y Safle

2.39 Os oes rheolwyr safle eisoes ar waith, dylid creu gweithdrefnau i drosglwyddo'r safle o'r rheolwr presennol i reolwr newydd y safle. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys:

- cynlluniau'r safle, gan gynnwys dimensiynau;
- ffiniau lleiniau ac atalfeydd tân;

⁷ Pat Niner / Canolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol, Prifysgol Birmingham, 'Accommodation Needs of Gypsy-Travellers in Wales' (2006): <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/research/community/accomneedsghypsy/?lang=en>

- byddai ffotograff o'r awyr yn ddefnyddiol iawn;
- rhestr o'r preswylwyr a'r lleiniau maent yn eu defnyddio;
- gwybodaeth am y cyflenwyr trydan a dŵr a lleoliad cyflenwadau, yn ogystal â manylion am bob cyflenwr gwasanaeth arall fel cyflenwyr poteli nwy ac unrhyw drefniadau gwaredu gwastraff sydd ar waith; a
- manylion am Gytundebau Lleiniau presennol.

2.40 O ran cyfleustodau, dylai rheolwyr safle gadw cofnod o'r canlynol:

- y cyflenwyr;
- gweithdrefnau ar gyfer darparu nwy, trydan a dŵr;
- gweithdrefnau ar gyfer darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff;
- trefniadau talu;
- trefniadau gwasanaeth a dyddiadau archwiliadau / gwaith cynnal a chadw; a
- chysylltiadau a gweithdrefnau mewn argyfwng, gan gynnwys pwyntiau diffodd a phwyntiau hydrantau tân.

2.41 Dylai holl allweddi'r safle gael eu trosglwyddo i'r rheolwr newydd, a dylai perchennog y safle gadw cofnod o'r allweddi a roddwyd. Os nad oes cofnod o bob allwedd, dylai'r perchennog ystyried gosod cloeon newydd.

Cyllid Safleoedd

2.42 Dylai'r rheolwr newydd gael gwybodaeth am daliadau a chael rhestr gynhwysfawr o'r canlynol:

- ffioedd lleiniau (gan gynnwys lle mae'r rhain yn amrywio yn ôl maint);
- cyfraddau cyfleustodau;
- costau gwasanaeth eraill;
- taliadau a wnaed a'r dyddiadau (dylid cadw llyfr cofnodi); a
- thaliadau dyledus neu ôl-ddyledion.

2.43 Os nad oes trefniadau talu ar waith eto, dylid cytuno a fydd ffioedd yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol / sefydliad rheoli o dan gontract neu i reolwr y safle. Argymhellir bod ffioedd yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, os bydd ffioedd yn cael eu talu i reolwr y safle, dylid rhoi system ar waith i gofnodi'r taliadau a dderbynnir a'r ffioedd a'r taliadau a drosglwyddir i'r sefydliadau perthnasol. Mewn achosion o'r fath dylid rhoi 'llyfr rhent' i breswylwyr yn unol â thenantiaethau safonol. Gall preswylwyr wneud cais am weld tystiolaeth o'r costau o dan baragraff 52(1)(b) ym Mhennod 4, Atodlen 2 i Ddeddf 2013.

2.44 Mae'n bwysig pwysleisio y gall safleoedd fod yn hunangyllidol ac yn gynaliadwy pan fyddant yn cael eu rheoli'n briodol, a bydd hynny'n help gyda chydlyniant cymunedol i sicrhau bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cyd-fyw'n heddychlon â'r boblogaeth sefydlog.

Adran 3: Cydweithio

3.1 Er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol ar y safle a rhwng y safle a'r gymuned sefydlog, mae'n bwysig bod perthynas dda rhwng rheolwr y safle a phreswylwyr y safle. Dylai'r berthynas hon fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill ochr a'r llall. Dylai rolau a chyfrifoldebau gael eu diffinio'n glir, gyda'r naill ochr yn deall yr hyn y gall ei ddisgwyl gan y llall.

Amcanion y Safle

3.2 Dylai fod gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y safle. Er enghraifft:

'Ein nod yw creu safle glân, wedi'i reoli'n dda ac wedi'i wasanaethu'n dda lle mae preswylwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu byw'n heddychlon.'

3.3 Dylai'r weledigaeth gael ei hategu gan amcanion penodol y gellir anelu atynt er mwyn sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Dylai hyn gael ei ategu gan amcanion y dylid cytuno arnynt fesul safle, er mwyn bodloni anghenion y preswylwyr a pherchennog y safle. Er enghraifft:

'Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu ardal chwarae i blant.'

3.4 Dylid cynnwys safonau gwasanaeth hefyd a'r rheini, yn ddelfrydol, yn adlewyrchu polisi'r Awdurdod Lleol ar gyfer gosod tai cymdeithasol yn yr ardal. Er enghraifft:

'Dylai gwaith brys ar gyflenwadau dŵr neu garthffosiaeth gael ei gwblhau o fewn 24 awr.'

'Bydd ardaloedd cymunedol yn cael eu glanhau gan reolwr y safle ddwywaith yr wythnos.'

'Bydd rheolwyr safle yn ymgynghori â'r preswylwyr yn flynyddol er mwyn deall y gwasanaethau sydd eu hangen, a byddant yn ystyried cyfleoedd i ddarparu'r rhain.'

3.5 Dylai trafodaethau ynglŷn â nodau ac amcanion safleoedd fod yn agored i'r holl breswylwyr, dylid cytuno arnynt ar y cyd â phreswylwyr a dylent fod yn ystyriol o rwystrau llythrennedd. Os oes cymdeithasau preswylwyr cymwys, bydd dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ymgynghori ar faterion yn ymwneud â gweithredu a rheoli'r safle.

3.6 Dylai amcanion y safle gael eu hystyried yn ofalus. Dylent fod yn ymrwymadau ystyrllon a chadarn, ac ni ddylent fod yn afrealistig. Gellir arfarnu perfformiad rheolwr y safle yn unol â'r amcanion hyn.

Cynnal a chadw

3.7 Mae rheoli safle'n effeithiol yn allweddol er mwyn cael safle llwyddiannus i Sipsiwn a Theithwyr, ac mae gwaith cynnal a chadw yn rhan allweddol o hyn. Hebdo, gall hyfywedd tymor hir y safle fod yn y fantol ac efallai y bydd preswylwyr yn gadael y safle, gan arwain at fwy o wersylloedd diawdurdod.

3.8 Bydd safle wedi'i reoli ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda hefyd yn helpu i leihau tensiynau â'r gymuned sefydlog, ac yn helpu'r gymuned gyfagos i oresgyn camsyniadau ynglŷn â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

3.9 Dylid llunio cynllun rheoli a chynnal a chadw ar gyfer y safle, a dylai fod ar gael i bob rhanddeiliad. Dylai'r ddogfen weithio hon fod yn ffrwyth ymgynghori a thrafod rhwng preswylwyr, rheolwyr ac Awdurdodau Lleol, a dylai gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac ystyried rheoli risg o ran gwaith cynnal a chadw ymatebol.

3.10 Dylai'r cynllun cynnal a chadw gynnwys yr amserlen arfaethedig o waith sy'n mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Efallai y bydd angen i'r cynllun cynnal a chadw gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru os bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud cais am arian i adnewyddu safle o dan y Grant Cyfalaf Safleoedd.⁸ a hynny er mwyn bodloni Llywodraeth Cymru nad yw'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi safleoedd anghynnaladwy.

3.11 Dylai'r cynllun cynnal a chadw fod yn hyblyg o ran anghenion newidiol preswylwyr presennol ac anghenion preswylwyr newydd. Lle na all rheolwr safle (neu lle na ddisgwylir iddo) ymgymryd â rôl gorfforol tasgau cynnal a chadw, er enghraifft, casglu sbwriel neu dorri'r gwair, yna dylai'r rhain gael eu cyfeirio at adrannau eraill yn yr Awdurdod Lleol h.y. Ystadau neu lechyd yr Amgylchedd, neu dylid gwneud trefniadau i gaffael y gwasanaethau hyn. Os bydd y tasgau hyn yn cael eu cyfeirio at adrannau neu ddarparwyr eraill, rheolwr y safle fydd yn gyfrifol o hyd am sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau a dylent gael eu cynnwys yn y cynllun cynnal a chadw. Os bydd rheolwr o dan gontract yn cael ei gyflogi, efallai y bydd yn rhaid i'r rheolwr gweithredol ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb o drefnu'r gwasanaethau hyn.

Y Berthynas rhwng Preswylwyr a Rheolwr y Safle

3.12 Os bydd y safle'n cael ei reoli'n fewnol neu o dan gontract allanol, dylai fod gan breswylwyr bwynt cyswllt bob amser. Dylai fod unigolyn a enwyd (h.y. rheolwr y safle) sy'n gweithio oriau swyddfa rheolaidd ac a fydd yn bwynt cyswllt cychwynnol â'r Awdurdod Lleol.

3.13 Dylid rhoi rhifau cyswllt mewn argyfwng i breswylwyr hefyd, boed yn rhifau cyswllt y rheolwr neu swyddog tai arall yn yr Awdurdod Lleol. Pa drefniadau bynnag a roddir ar waith, dylid rhoi'r enwau a'r rhifau cyswllt i breswylwyr mewn ffordd glir a hygyrch.

3.14 Dylai preswylwyr ddisgwyl i reolwr y safle (neu ddirprwy a benodwyd) gadw at yr oriau swyddfa a bennwyd ymlaen llaw ac eithrio mewn argyfwng.

3.15 O ran gwyliau neu absenoldeb estynedig, dylai'r Awdurdod Lleol drefnu i reolwr arall gyflenwi, a dylai roi gwybod i'r preswylwyr am y trefniadau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle y disgwylir i breswylwyr ddibynnu ar reolwr y safle am wasanaethau o ddydd i ddydd fel darparu talebau mesuryddion trydan neu roi gwybod am ddiffygion.

3.16 Bydd y Cytundeb Llain, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, hefyd yn amlinellu rhwymedigaethau 'perchennog y safle'. Dylai Awdurdodau Lleol benderfynu pa rolau fydd yn cael eu hysgwyddo gan y rheolwr gweithredol, a pha rai fydd yn cael eu hysgwyddo gan reolwr y safle (gweler paragraffau 1.16 – 1.22). Gweler Adran 6: Cytundeb Llain am ragor o wybodaeth.

3.17 Dyma rai o'r dyletswyddau penodol y bydd disgwyl i reolwr safle eu cyflawni o bosibl (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain):

- Sicrhau bod preswylwyr y safle'n ddiogel drwy gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau.

⁸ Llywodraeth Cymru, 'Sites Capital Grant guidance notes' <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/grants/gypsy-traveller-site-grant/?lang=en>

- Gwneud gwaith cynnal a chadw effeithiol er mwyn sicrhau y bydd y safle bob amser yn ddiogel ac yn gynaliadwy.
- Sicrhau bod pob Cytundeb Llain, Rhestr Aros a Pholisi Dyrannu yn cael eu cynnal a'u gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
- Cydweithio â sefydliadau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau ar y safle.
- Hwyluso asesiadau a chyfarfodydd angenrheidiol ar y safle, yn ôl yr angen.
- Rheoli cyllideb y safle, gan gynnwys sicrhau bod ffioedd lleiniau a ffioedd eraill yn cael eu casglu a'u prosesu.
- Cynnal ymgynghoriadau â phreswylwyr y safle ynglŷn â gwelliannau neu newidiadau rheoli i'r safle (lleiniau preswyl parhaol yn unig).
- Helpu'r preswylwyr i lenwi ffurflenni swyddogol neu i ddilyn prosesau swyddogol, yn ôl yr angen.

3.18 Rhaid egluro'r Cytundeb Lleiniau yn llawn wrth y preswylwyr, nid dim ond eu cyflwyno ar ffurf ysgrifenedig. Dylai'r preswylwyr fod yn ymwybodol y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fethu ag unioni unrhyw achosion o beidio â chyflawni eu cyfrifoldebau o fewn cyfnod rhesymol arwain at gamau cyfreithiol.

3.19 Bydd angen i'r Awdurdod Lleol roi Hysbysiadau Preifat i'r preswylwyr yn egluro pam mae'r Awdurdod Lleol yn casglu eu gwybodaeth, ac a fyddant yn rhannu'r wybodaeth ag unrhyw un arall. Dim ond at y dibenion a nodir yn yr Hysbysiad Preifat y dylid defnyddio gwybodaeth am breswylwyr. Dylai rheolwr y safle hefyd roi gwybodaeth i'r preswylwyr am eu hawl i gyflwyno Cais Gwrthrych am Wybodaeth i gael copi o'r wybodaeth sydd gan yr Awdurdod Lleol amdanynt. Fel y rheolydd data, yr Awdurdod Lleol fydd yn ysgwyddo'r ddyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wrth brosesu data ynghylch y preswylwyr.

Y Berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a Rheolwr y Safle

3.20 Mae'n bwysig bod rolau a chyfrifoldebau clir rhwng rheolwr y safle a'r Awdurdod Lleol hefyd:

- bydd angen i'r rheolwr gael cefnogaeth gadarn gan yr Awdurdod Lleol;
- dylai'r Awdurdod Lleol ddirprwyo pwerau priodol i reolwr y safle a chefnogi ei benderfyniadau;
- yn yr un modd ag y dylai fod pwynt cyswllt mewn argyfwng i breswylwyr, dylai fod gan y rheolwr hynny hefyd. Lle na chaiff pwerau eu dirprwyo, dylai fod gan y rheolwr enw cyswllt y gall droi ato i gael awdurdodaeth neu gyngor;
- dylai rheolwr y safle sicrhau bod y rheolwr gweithredol yn cael ei hysbysu'n briodol am waith rheoli a gweithredu'r safle, gan gynnwys cyllid, lleiniau gwag a gwaith cynnal a chadw;
- dylai rheolwr y safle fod yn ymrwymedig i ddiogelu'r safle ar ran yr Awdurdod Lleol; a
- dylai'r Awdurdod Lleol fod yn ymrwymedig i helpu rheolwr y safle i ddiogelu lles a diwylliant y preswylwyr.

Cymdeithasau Preswylwyr

3.21 Caniateir i breswylwyr ffurfio cymdeithasau preswylwyr er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â hwy ynglŷn â materion sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r safle. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â phreswylwyr ynghylch gwelliannau i'r safle, yn enwedig lle maent yn debygol o effeithio ar ffi'r llain. Fodd bynnag, dim ond os bydd cymdeithas preswylwyr gymwys yn bodoli y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â rheoli a gweithredu'r safle.

3.22 O dan adran 61 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, dylai cymdeithas preswylwyr gymwys wneud y canlynol:

- cynrychioli o leiaf 50 y cant o breswylwyr cartrefi symudol ar safle;
- bod yn annibynnol ar berchennog neu reolwr y safle;
- sicrhau bod aelodaeth yn agored i bob preswlydd (ac eithrio rheolwyr preswyl);
- llunio rheolau a chyfansoddiad y gall y cyhoedd eu gweld a chadw rhestr o aelodau;
- penodi cadeirydd etholedig, ysgrifennydd a thrysorydd;
- penderfynu ar faterion drwy bleidlais ddemocrataidd lle mae pob llain yn cael un bleidlais.

3.23 Dylai Awdurdodau Lleol geisio ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â'r ffordd mae'r safle'n cael ei reoli, hyd yn oed os nad yw'r grŵp yn gymwys i fod yn gymdeithas preswylwyr.

Adran 4: Ceisiadau a Dyraniadau

Ceisiadau

4.1 Dylai ffurflenni cais ar gyfer lleiniau preswyl parhaol fod ar gael gan swyddfa dai'r Awdurdod Lleol yn ogystal â rheolwr y safle. Dylai ffurflenni fod yn glir ac yn hawdd eu deall.

4.2 Yn ddelfrydol, dylai ffurflenni cais gael eu llenwi gan yr ymgeisydd ond os oes rhwystrau llythrennedd, dylai rheolwr y safle egluro'r ffurflen ar lafar, ynghyd â thelerau cytundeb llain ar y safle. Byddai angen ailddatgan y rheolau hyn a'u hesbonio eto os neu pan fydd llain a chytundeb llain yn cael eu darparu.

4.3 Dylai'r cysylltiad cychwynnol fod ar ffurf cyfarfod rhwng yr ymgeisydd a rheolwr y safle. Dyma'r adeg y dylai ffurflenni gael eu llenwi ac y dylai rheolau gael eu hesbonio. Dylid rhoi sicrwydd i ymgeiswyr y bydd y ffurflenni yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data.

4.4 Dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr bod lleiniau'n cael eu dyrannu ar sail sawl ffactor, a all gynnwys y canlynol:

- **Y lle sydd ar gael**

Mae trosiant lleiniau a chyfraddau lleiniau gwag ar safleoedd Awdurdodau Lleol yn isel. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o safleoedd yn llawn, a all olygu y bydd angen i ymgeiswyr dreulio ychydig o amser ar restr aros.

- **Ôl-ddyledion Ffioedd**

Bydd angen i Awdurdodau Lleol fod yn fodlon bod ymgeiswyr yn debygol o dalu ffi'r llain a ffioedd eraill sy'n ddyledus.

- **Prawf Adnabod**

Lle nad oes prawf adnabod ar gael gan yr ymgeisydd, dylai rheolwr y safle geisio cael rhyw fath o brawf adnabod gan aelodau eraill o'r teulu a fydd yn byw ar y safle. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau rhyw fath o brawf adnabod. Gall hyn olygu pasbort, trwydded yrru, tystysgrif geni, biliau cyfleustodau neu dderbynebaw gan safleoedd blaenorol. Os nad oes prawf adnabod â ffotograff ar gael, dylai llythyr a ffotograff gael eu llofnodi gan gydnabod proffesiynol (er enghraifft, athro) er mwyn cadarnhau pwy yw'r unigolyn (yn yr un modd â cheisiadau am Basbort).

Os bydd ymgeiswyr am aseinio eu llain, mae'n rhaid ei haseinio i aelod o'r teulu. Felly, bydd angen prawf o gysylltiadau teuluol.

- Nodir meini prawf ymgeisio / dyrannu eraill ym mharagraffau 4.18-4.19.

4.5 Dylai ceisiadau am leiniau preswyl parhaol gael eu cyflwyno i swyddfa dai'r Awdurdod Lleol. Dylai rheolwr y safle roi gwybod i'r preswylwyr beth yw oriau'r swyddfa, a byddant yn aml wedi'u nodi ar wefan yr Awdurdod Lleol.

4.6 Dylid cyfeirio at bolisi dyrannu lleiniau'r Awdurdod Lleol wrth ystyried ffurflenni cais, gan roi ystyriaeth briodol i anghenion yr ymgeisydd. O ran lleiniau preswyl parhaol, ni ddylai fod rhaid i'r ymgeisydd roi amcangyfrif o ba mor hir y bydd yn aros yno, a dylai pob cais llwyddiannus gael ei ystyried yn ddilys ar yr amod bod gan y safle ganiatâd cynllunio. O ran

safleoedd tramwy, gall yr Awdurdod Lleol ofyn am amcangyfrif o ba mor hir y bydd yr ymgeisydd yn aros yno, a dim ond am hyd at 3 mis y caiff meddianwyr aros ar y llain.

4.7 Ni ddylai penderfyniadau ar geisiadau gael eu gwneud gan reolwr safle yn unig. Gellir ystyried barn ac argymhellion rheolwr y safle ond, yn anochel, bydd ceisiadau yn dibynnu ar bolisi dyrannu lleiniau'r Awdurdod Lleol, anghenion yr ymgeisydd a ffactorau eraill a nodir ym mharagraff 4.4.

4.8 Dylai'r Awdurdod Lleol bennu terfynau amser rhesymol i ystyried ceisiadau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dylai Awdurdodau Lleol gadw mewn cof y gallai terfynau amser rhy hir arwain at sefyllfa lle mae ymgeiswyr yn mynd yn ddigartref ac yn gorfod sefydlu gwersylloedd diawdurdod gan nad oes dewis cyfreithlon arall.

4.9 Argymhellir y dylai'r Awdurdod Lleol ymateb i geisiadau am leiniau preswyl parhaol o fewn 28 diwrnod iddynt gael eu cyflwyno. Dylid rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y terfyn amser disgwylidig.

4.10 Dylai'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gael gwybod am y penderfyniad ar unwaith. Dylid rhoi rheswm iddynt pam nad ydynt yn gymwys i gael llain. Ni ddylai penderfyniad i wrthod cais atal ymgeiswyr rhag gwneud cais eto yn y dyfodol.

4.11 Lle y bo modd, dylai lleiniau tramwy gwag gael eu dyrannu dros dro tra bydd ymgeiswyr yn aros am benderfyniad ynglŷn â llain breswyl barhaol. Fodd bynnag, pan benderfynir gwneud hynny, ni chaniateir i feddianwyr aros ar lain dramwy am fwy na thri mis.

4.12 Os gellir dangos cysylltiadau teuluol ar safleoedd preswyl ac os oes digon o le, dylid caniatáu i ymgeiswyr aros dros dro ar y safle. Byddai'n rhaid i'r polisi hwn gael ei ddatblygu ar y cyd â phreswylwyr, a gall gael ei ystyried fesul achos. Er bod rhaid atal gwahaniaethu yn erbyn grwpiau nad ydynt yn perthyn i'r teulu, dylai cydlyniant a chytgord y safle a lles y preswylwyr presennol fod yn ystyriaeth allweddol. Er enghraifft, efallai y bydd aelodau o deulu sydd am symud i'r safle'n barhaol ac sydd wedi cael caniatâd dros dro i aros yn gofalu am berthnasau anabl neu sâl sy'n byw ar y safle.

4.13 Lle mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu safleoedd tramwy, efallai y byddai proses ymgeisio ffurfiol yn cael ei hystyried yn amhriodol. Fodd bynnag, efallai y bydd rheolwyr safle yn dal am gael geirdaon boddhaol a ffioedd am yr wythnos gyntaf cyn caniatáu i leiniau tramwy gwag gael eu meddiannu. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried y gofyniad i gael blaendal ad-daladwy i'w dalu ymlaen llaw ar gyfer y rheini sydd am feddiannu lleiniau tramwy. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod ganddo ddigon o bwerau i wneud hynny.

4.14 Dylai rheolwyr safleoedd tramwy geisio meithrin perthynas â rheolwyr safleoedd tramwy a pharhaol eraill er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n teithio o safleoedd eraill yn gwybod am leiniau gwag.

4.15 Wrth i safleoedd tramwy ddod ar gael yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu system o roi gwybod am leiniau tramwy gwag. Dylai hyn helpu i leihau nifer yr achosion o wersylloedd diawdurdod a hwyluso'r ffordd o fyw deithiol draddodiadol.

Rhestrau Aros

4.16 Argymhellir yn gryf y dylai Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu polisiâu a'u gweithdrefnau ar gyfer dyrannu lleiniau, gan gynnwys meini prawf asesu, terfynau amser disgwylidig, sut i wneud cais a sut y byddant yn diffinio ac yn darparu ar gyfer angen blaenoriaethol yn y polisi. Un rhan allweddol o'r polisi hwn fyddai rhestr aros i'r rheini sydd am gael llain ac sy'n cael eu hystyried yn gymwys.⁹

4.17 Lle mae rhestr aros ar waith, dylai'r Awdurdod Lleol esbonio'n glir sut mae'r rhestr yn gweithio a rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am eu safle cyffredinol ar y rhestr os byddant yn gofyn am y wybodaeth hon. Yn anochel, os bydd amgylchiadau ymgeiswyr yn newid neu os bydd ymgeiswyr newydd ag angen blaenoriaethol yn symud i'r ardal lle yr ystyrir bod llain cartref symudol yn llety addas (fel y nodir ym mharagraff 4.20 isod), mae trefn benodol y rhestr aros yn debygol o newid. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Lleol allu rhoi adborth i ymgeiswyr am yr amser aros disgwylidig.

4.18 Fel gyda mathau eraill o dai cymdeithasol, y rheini sydd â'r angen mwyaf ac nad oes ganddynt unrhyw lety amgen arall ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer lleiniau parhaol. Dylai'r meini prawf ar gyfer asesu angen ymgeiswyr gael eu hesbonio'n glir hefyd, a dylai'r weithdrefn ddyrannu fod yn agored er mwyn atal cyhuddiadau o ffafriaeth i unigolion neu deuluoedd penodol. Er enghraifft, fel gyda phob cymuned arall, dylid rhoi blaenoriaeth i'r canlynol yn fras:

- Merched beichiog neu unigolion y gallai, yn rhesymol, fod yn preswyllo â hwy.
- Pobl â phlant dibynnol yn bwy gyda hwy.
- Pobl sy'n agored i niwed am reswm arbennig (er enghraifft, pobl anabl neu hŷn, neu bobl sydd â salwch corfforol neu salwch meddwl).
- Pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i argyfwng.
- Pobl sy'n ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig.
- Pobl ifanc 16 neu 17 oed.
- Pobl ifanc sydd wedi troi'n 18 oed (ond yn iau nag 21 oed) sydd angen help i gael llety ar ôl gadael gofal cymdeithasol.
- Pobl ifanc sydd wedi troi'n 18 oed (ond yn iau nag 21 oed) sy'n wynebu risg benodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol.
- Pobl sy'n ddigartref ers gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron.
- Person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sydd mewn sefyllfa fregus ar ôl treulio cyfnod yn y carchar, neu bobl y gallai yn rhesymol fod yn preswyllo â hwy.

4.19 Efallai y bydd Awdurdodau Lleol hefyd am ystyried meini prawf asesu ychwanegol ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr.¹⁰ Er enghraifft, gellir hefyd roi blaenoriaeth i'r canlynol:

- Pobl sy'n byw ar leiniau gorlawn neu anhylan ar safleoedd presennol.

⁹ Mae rhestrau aros sy'n ein galluogi i gofnodi'r angen penodol am lain awdurdodedig yn ofynnol o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynnal Aseidiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/accommodation-needs/?lang=cy>

¹⁰ Cod Canllawiau drafft Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2015) <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?skip=1&lang=cy>

- Pobl sydd â gwrthwynebiad diwylliannol cydnabyddedig i fyw mewn tai confensiynol.
- Pobl sydd am symud i gynorthwyo perthnasau oedrannus ac anabl sy'n byw ar y safle.

4.20 Dylid hefyd rhoi ystyriaeth briodol i grwpiau teuluol a'r goblygiadau ehangach i fywyd teuluol. Er y gellir ystyried y ffactor hwn, ni ddylid ei ystyried yn angen blaenoriaethol. Dylid ymgynghori ar y polisiau dyrannu hyn er mwyn sicrhau bod y broses a'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar geisiadau, dyrannu lleiniau a phennu angen blaenoriaethol yn cael eu deall yn llawn a'u bod yn addas at y diben.

4.21 Efallai y bydd rheolwr safle a rheolwr gweithredol yr Awdurdod Lleol am adolygu'r polisiau dyrannu lleiniau a rhestrau aros os byddant yn dod yn ymwybodol eu bod yn rhy gyfyngol i ymgeiswyr newydd neu y gallant wneud i breswylwyr hirdymor adael y safle.

Dyraniadau

4.22 Dylai Awdurdodau Lleol geisio dyrannu lleiniau parhaol i'r rheini sydd â'r angen mwyaf ac nad ydynt wedi cael cynnig llety amgen arall, fel y nodir uchod. Mae'r rhan fwyaf o bolisiau dyrannu yn cynnwys system pwyntiau. Dylai'r system hon adlewyrchu polisi dyrannu cyffredinol yr Awdurdod Lleol.

4.23 Lle y bo modd, dylai ymgeiswyr gael dewis o leiniau sydd fwyaf addas i'w gofynion.

4.24 Os nad oes lleiniau addas ar gael i ymgeiswyr anabl neu oedrannus, dylai rheolwr y safle gydweithio â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd er mwyn asesu anghenion iechyd a lles y preswylwyr yn ogystal ag unrhyw addasiadau sydd eu hangen o bosibl oherwydd anabled, gyda chaniatâd penodol y preswlydd.

4.25 Ar ôl yr asesiad hwn dylai rheolwr y safle gydweithio â'r rheolwr gweithredol er mwyn gwneud addasiadau priodol neu resymol i leiniau neu flociau amwynder. Gall Awdurdodau Lleol ddewis defnyddio'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn sicrhau bod lleiniau'n hygyrch.

4.26 Dylai unrhyw benderfyniad i wrthod ceisiadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r meini prawf ymgeisio. Os penderfynir peidio â derbyn cais, dylid rhoi gwybod i'r preswlydd am y broses apelio. Dylai Awdurdodau Lleol unigol roi gwybodaeth am y rhain fel rhan o'r hysbysiad o benderfyniad ac ar gais.

4.27 Os nad oes lleiniau addas ar gael ond bod yr ymgeisydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i argyfwng, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswyddau digartrefedd y bydd angen iddo gydymffurfio â hwy.

Aseinio ac Olyniaeth (Lleiniau preswyl parhaol yn unig)

4.28 Efallai y bydd preswylwyr presennol ar leiniau parhaol awdurdodedig am aseinio eu cytundeb llain i aelod o'r teulu, neu gyfnewid eu llain â meddiannydd arall ar safle Awdurdod Lleol. Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn amlinellu'r amgylchiadau pryd y dylid caniatáu hyn ynghyd â rhwymedigaethau preswylwyr a pherchenogion safleoedd.

4.29 Er mwyn aseinio cytundeb llain, mae'n rhaid i'r preswylwyr gael cymeradwyaeth y perchennog ac, yn achos cyfnewid llain, mae'n rhaid bod y darpar breswlydd eisoes yn byw ar lain sy'n eiddo i Awdurdod Lleol yn yr un ardal Awdurdod Lleol ac mae'n rhaid bod y preswylwyr wedi cytuno i gyfnewid lleiniau rhyngddynt hwy eu hunain.

4.30 Ni chaniateir i'r preswlydd na pherchennog y safle (gan gynnwys rheolwr y safle) ofyn am dâl i aseinio neu gyfnewid llain.

4.31 Dylai'r preswlydd gyflwyno cais am gymeradwyaeth i berchennog y safle, a fydd yn cynnwys tystiolaeth bod y darpar breswlydd yn aelod o'r teulu neu, yn achos cyfnewid llain, tystiolaeth o gytundeb rhwng y preswylwyr.

4.32 Mae'n rhaid i berchennog y safle ymateb i'r cais o fewn 28 diwrnod, gan gymeradwyo'r cais oni fydd yn rhesymol i'r perchennog beidio â gwneud hynny. Mae'n rhaid i'r perchennog hefyd gyflwyno hysbysiad o'r penderfyniad. Os yw'r safle yn cael ei reoli o ddydd i ddydd o dan gontract, yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol o hyd am gymeradwyo'r ceisiadau hyn. Felly, mae rhwymedigaeth ar reolwr y safle i roi gwybod i berchennog y safle am y cais.

4.33 Os na chaiff yr aseiniad ei gymeradwyo, mae'n rhaid cynnwys rhesymau ysgrifenedig yn yr hysbysiad o benderfyniad. Gall yr Awdurdod Lleol gymeradwyo aseiniad, hyd yn oed pan fydd ffioedd yn ddyledus gan y meddiannydd neu pan fydd wedi torri un o delerau'r cytundeb. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ffioedd gael eu talu ac mae'n rhaid i achosion o dorri telerau gael eu hunioni cyn y gellir cwblhau'r aseiniad.

4.34 Er y gall yr Awdurdod Lleol roi rhesymau dros beidio â chymeradwyo cais, ni all osod unrhyw amodau eraill wrth roi cymeradwyaeth.

4.35 Os na fydd y preswlydd yn cael hysbysiad o benderfyniad neu os gwrthodir cymeradwyo'r aseiniad, gall wneud cais i Dribiwnlys Eiddo Preswyl am benderfyniad annibynnol.¹¹ Mae'n rhaid i gais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl gael ei wneud o fewn tri mis i gael yr hysbysiad o benderfyniad.

4.36 Mae'n bosibl y bydd rhai aseiniadau yn arwain at breswylwyr newydd nad oeddent ar frig y rhestr aros. Fodd bynnag, bydd y preswylwyr hyn yn dod yn lle preswylwyr presennol, yn hytrach na chael lleiniau gwag.

4.37 Yn yr un modd, pan fydd deiliad cytundeb llain yn marw, mae gan unrhyw un a oedd yn byw gyda'r person hwnnw yn y cartref symudol ar y pryd hawl i aros ar y llain. Mae hyn yn cynnwys gŵr gweddw, gwraig weddw, partner yr ymadawedig neu unrhyw aelod o deulu'r ymadawedig (fel y diffiniwyd o dan adran 55 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013).

4.38 Hefyd, os oedd deiliad y cytundeb llain yn byw ar ei ben ei hun ar y pryd, y sawl sydd â'r hawl i'r cartref symudol yn unol â'r ewyllys neu o dan ddeddfau marwolaeth heb ewyllys fydd yr olynnydd.

4.39 O ran hawliau olyniaeth, ni ddylid dilyn polisïau dyrannu'r Awdurdod Lleol oni bai fod y cytundeb llain wedi'i derfynu.

4.40 Nid yw meddianwyr lleiniau tramwy yn gymwys i gael hawliau aseinio neu olyniaeth.

¹¹ Gwefan y gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl, <http://rpt.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

Adran 5: Cyrraedd y Safle

5.1 Dylai rheolwr y safle roi'r cytundeb llain i'r ymgeisydd yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a dylai'r ymgeisydd gytuno arno cyn i unrhyw gartrefi symudol gael eu symud ar y safle. Dylai'r cytundeb gael ei esbonio'n llawn i'r preswlydd a dylai ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau'r rheolwr, yr Awdurdod Lleol a'r preswlydd. Dylai'r preswylwyr newydd gael eu hysbysu bod y cytundeb yn berthnasol i bawb sy'n byw ar y llain dan sylw. Dylai'r cytundeb ddarparu bod yr ymgeisydd a enwir yn gyfrifol am bob gweithgaredd ar y llain ac am ymwelwyr ar y llain. Dylai'r ymgeisydd gael ei wneud yn gyfrifol am ymddygiad a lles ymwelwyr personol yn ogystal â lles y rhai sydd ar y llain i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu archwiliadau diogelwch. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r cytundeb i ddweud ei fod wedi deall y rheolau (p'un ai a gawsant eu hesbonio ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig).

5.2 Dylai'r preswylwyr newydd gael map o'r safle sy'n nodi ardaloedd allweddol megis swyddfa'r safle, hydrantau tân, manau ymgynnull yn achos tân, cyfleusterau ailgylchu, biniau / sgiplau cymunedol, cyfleusterau storio nwy ac unrhyw gyfleusterau cymunedol. Dylai'r map hefyd nodi lleoliad eu llain yng nghyd-destun gweddill y safle a dangos ffiniau lleiniau'n glir. Dylai'r wybodaeth hon fod yn syml ac yn glir er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau llythrennedd a, lle y bo modd, dylai ddefnyddio symbolau i ddynodi lleiniau, pwyntiau cysylltu, pwyntiau tân ac ati.

5.3 Dylai'r preswlydd gael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cytundeb a holi ynghylch unrhyw wybodaeth a ddarperir. Dylai rheolwr y safle neilltuo ychydig o amser i drafod unrhyw bryderon neu esbonio unrhyw faterion ymhellach.

5.4 Bydd y cytundeb llain ysgrifenedig yn cynnwys telerau 'Ymhlyg', na all Awdurdodau Lleol na phreswylwyr eu rhoi o'r neilltu, a telerau 'Datganedig', y cytunir arnynt gan y preswylwyr ac Awdurdodau Lleol. Os nad yw preswylwyr yn fodlon ar y telerau 'Datganedig' a gynigiwyd dylent eu trafod â'r Awdurdod Lleol. Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno i newid y telerau, gall y preswlydd wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am i unrhyw un o'r telerau gael eu newid neu eu dileu. Rhaid i gais o'r fath gael ei wneud o fewn chwe mis i lunio'r telerau.

5.5 Yn ogystal, os yw'r preswlydd o'r farn bod un o'r telerau 'Datganedig' yn annheg, gall gyflwyno cwyn i'r Swyddfa Masnachu Teg, neu unrhyw gorff cymwys, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999.

5.6 Fodd bynnag, nid oes gan feddiannwyr lleiniau tramwy yr hawl i herio'r telerau yn eu cytundebau lleiniau.

5.7 Ni ddylid disgwyl ernes am unrhyw lain breswyl barhaol. Ond, efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried y gofyniad i gael blaendal ad-daladwy ar gyfer y rheini sydd am feddiannu lleiniau tramwy. Argymhellir bod rhent y llain yn cael ei dalu ymlaen llaw yn wythnosol. Os felly, byddai disgwyl i rent wythnos (neu gyfran ohono) gael ei dalu pan fydd y preswlydd yn cyrraedd y safle. Dylai rheolwr y safle drafod opsiynau talu gyda'r ymgeisydd. Gall hyn gynnwys materion ynglŷn â debydau uniongyrchol, archebion sefydlog neu Gredyd Cynhwysol.

5.8 Dylai'r cytundeb llain ei gwneud yn glir pryd y bydd ffi'r llain yn ddyledus, swm ffi'r llain a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.

5.9 Ar ôl i'r cytundeb gael ei lofnodi a'i ddeall yn llawn a phan fydd y rheolwr a'r ymgeisydd yn fodlon, yna gall y garafán gael ei symud i'r llain benodedig.

5.10 Yna dylid dangos y llain a'r cyfleustodau, gan gynnwys pwyntiau cysylltu ar gyfer dŵr a thrydan, i'r preswylwyr.

5.11 Dylai'r holl gyfleustodau fod ar gael o'r diwrnod y mae'r ymgeisydd yn symud ar y llain. Er enghraifft, nid yw'n dderbyniol bod y cyflenwad dŵr i'r llain wedi'i ddiffodd ar ôl i'r preswlydd feddiannu'r llain. Hefyd, dylai unrhyw drefniadau neu addasiadau arbennig fod ar waith pan fydd y preswlydd yn dechrau'r denantiaeth.

5.12 Rheolwr y safle sy'n gyfrifol am ddangos y llain ynghyd â'r pwyntiau cysylltu, draeniau a'r bloc amwynder i'r preswylwyr ac, er enghraifft, sut i ddefnyddio'r gawod neu'r system wresogi a sut i gysylltu'r peiriant golchi. Dylai hyn gael ei wneud adeg cyrraedd y llain.

5.13 Dylai rheolwr y safle hefyd esbonio'r trefniadau ar gyfer y cyfleustodau, yn enwedig y trefniadau talu. Dylai'r preswylwyr gael gwybod ble y gellir prynu cardiau talu (os ydynt yn cael eu defnyddio).

5.14 Dylai'r preswylwyr gael gwybod am y rheoliadau tân ar y safle a'r atalfeydd tân rhwng y lleiniau. Ceir gwybodaeth benodol am atalfeydd tân yn y canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dylid hysbysu preswylwyr na ddylid amharu ar yr atalfa dân o dan unrhyw amgylchiadau ac y gall unrhyw beth sy'n mynd yn groes i hynny fod yn gyfystyr â thorri'r cytundeb llain. Gall hyn arwain at gais i'r Llys i derfynu'r cytundeb llain ac adfeddiannu'r llain.

5.15 Dylai'r preswylwyr gael eu hysbysu am wasanaethau ar y safle, er enghraifft casglu sbwriel a threfniadau post.

5.16 Dylai'r preswylwyr gael eu hysbysu am y trefniadau glanhau a chynnal a chadw hefyd. Dylid nodi'n glir yr hyn y mae'r preswlydd yn gyfrifol am ei lanhau a'i gynnal a'i gadw a'r hyn y bydd rheolwr y safle yn ei gynnal a'i gadw.

5.17 Dylid esbonio manylion trefniadau mewn argyfwng yn llawn i'r preswylwyr. Dylai hyn gynnwys manylion am y man ymgynnull yn achos tân, hydrantau tân, manylion cyswllt mewn argyfwng a lleoliad y ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

5.18 Hefyd, dylid rhoi manylion cyswllt am wasanaethau y tu allan i oriau nad ydynt yn rhai brys i'r preswylwyr.

5.19 Bydd preswylwyr newydd yn cael cryn dipyn o wybodaeth. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn llyfryn clir sy'n defnyddio iaith syml er mwyn i'r preswylwyr gyfeirio ati yn ddiweddarach. Dylid hefyd ddarparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch, er enghraifft CD neu DVD.

5.20 Dylai fod gan reolwr safle gynllun sefydlu ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â phob agwedd ar y broses gyflwyno. Gall rhestr gyfeirio fod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau nad oes dim yn cael ei golli. Bydd cynllun sefydlu clir hefyd yn sicrhau bod modd i newydd-ddyfodiaid i'r safle gael eu croesawu a chael gwybodaeth briodol hyd yn oed os bydd rheolwr y safle yn absennol (oherwydd salwch ac ati). Ceir enghraifft o restr gyfeirio ar gyfer y broses sefydlu isod.

Enghraifft o Restr Gyfeirio ar gyfer y broses sefydlu:Map o'r Safle a'r Prif Gyfleusterau **Cytundeb Llain:**Esboniwyd Llofnodwyd

Wedi trafod Ymholiadau

Tâl ymlaen llaw

Manylion

Taliadau yn y dyfodol wedi'u hesbonio (dyddiadau taliadau rhent wedi'u rhoi) Llain wedi'i dyrannu Cadarnhau nifer yr aelodau yn y teulu (rhag ofn y bydd tân ac ati) Y garafán wedi'i gosod yn ddiogel Cyfleustodau wedi'u hesbonio Cyfleustodau sydd ar gael

Materion i roi sylw iddynt

Trefniadau lles wedi'u trafod:Anabledd / Addasiadau Addysg Iechyd Cyfleustodau – Trefniadau Talu Gwasanaethau eraill ar y safle (Post, Sbwriel, Ailgylchu) Glanhau a Chynnal a Chadw – Rolau a Chyfrifoldebau wedi'u hesbonio Rheoliadau Tân Cyfarpar Argyfwng / Tân Manylion Cyswllt mewn Argyfwng Manylion os nad yw'n Argyfwng

Manylion Cyswllt Ychwanegol wedi'u darparu:

Meddyg Teulu

Galw Iechyd Cymru / NHS Direct

Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Deintydd

Cyflwyno'r Preswylwyr

Pecyn Sefydlu wedi'i Roi

CD / DVD wedi'i ddarparu

Llyfr Rhent wedi'i ddarparu

Adran 6: Cytundeb Llain

6.1 Contract cyfrwymol yw'r cytundeb llain sy'n cael ei lunio gan yr Awdurdod Lleol ac a fydd yn cynnig sicrwydd i'r preswlydd, y rheolwr a'r Awdurdod Lleol.

6.2 Dylai'r cytundeb llain nodi'r holl wybodaeth angenrheidiol y bydd y preswlydd ei hangen Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y ffordd y caiff y safle ei redeg o ddydd i ddydd ynghyd â chrynodeb clir o'r rheolau a chyfrifoldebau.

6.3 Fel y nodir uchod, dylai rheolwr y safle ddarllen y cytundeb ysgrifenedig yn uchel i'r preswylwyr. Dylai preswylwyr gael cyfle i wahodd trydydd parti i'w helpu i ddarllen a / neu i esbonio'r cytundeb os oes angen. Ond, rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r contract (neu roi ei farc) i ddweud ei fod wedi deall y rheolau a dyletswyddau pob parti.

6.4 Diben y cytundeb yw sicrhau bod pob parti yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau ar y safle. Felly, mae'n bwysig nodi eto y dylai cytundebau gael eu hysgrifennu mewn iaith syml heb jargon sy'n sicrhau bod cyn lleied o gyfle â phosibl i achosi anghydfod neu ddryswch. Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o dermau cyfreithiol, talfyriadau neu fyrfodau. Fel y nodir uchod, gellid defnyddio cyfryngau cyfathrebu eraill i gyfleu gwybodaeth.

6.5 Ar ôl cytuno ar y cytundeb llain, a'i lofnodi, bydd yn rhoi sicrwydd deiliadaeth am gyfnod amhenodol i'r preswlydd – oni bai fod gan y llain ei hun ganiatâd cynllunio ac iddo derfyn amser penodol neu os llain dramwy ydyw. Ond, gall Awdurdodau Lleol a phreswylwyr lleiniau parhaol ofyn i gytundebau newydd gael eu mabwysiadu os yw'r trefniadau presennol yn achosi problemau. Rhaid i'r ddau barti gytuno i newid neu ddileu telerau. Os nad yw hyn yn bosibl, gall y naill barti neu'r llall wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am benderfyniad annibynnol ynghylch a ddylai'r telerau gael eu newid. Ni chaiff Awdurdodau Lleol newid y telerau heb i breswylwyr neu'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl gytuno i hynny.

6.6 Pan roddir cytundeb llain ar gyfer llain dramwy, y cyfnod hiraf y gellir meddiannu'r llain yw tri mis. Ni chaiff meddianwyr herio telerau o dan y cytundebau hyn.

6.7 Dylai'r cytundeb llain ysgrifenedig gynnwys manylion ffi'r llain a chostau eraill a'r diwrnod y byddant yn ddyledus. Dylai hyn gynnwys pa wasanaethau a chyfleustodau sydd wedi'u cynnwys yn ffi'r llain.

6.8 Rhaid i'r cytundeb hefyd gynnwys y dyddiad blynyddol pan gaiff ffi'r llain ei hadolygu, Bydd hyn yn cael ei esbonio'n fanylach yn Adran 7: Ffioedd Safleoedd.

6.9 Bydd y cytundeb llain hefyd yn cynnwys yr holl delerau 'Ymhlyg' a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a'r telerau 'Datganedig' a lunnir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r telerau 'Ymhlyg' yn esbonio'r prosesau sy'n gysylltiedig â:

- terfynu cytundebau;
- aseiniadau;
- adennill unrhyw ordaliadau;
- ail-leoli Cartrefi Symudol;
- y mwynhad tawel o'r Cartref Symudol;
- hawl perchennog y safle i gael mynediad i'r llain;
- pennu ffioedd lleiniau;
- rhwymedigaethau'r meddiannydd; a
- rhwymedigaethau perchennog y safle.

6.10 Bydd y telerau 'Datganedig' yn esbonio rheolau safle lleol a gallant gynnwys yr hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r canlynol:

- ymddygiad neu iaith fygythiol tuag at staff, preswylwyr eraill neu gontractwyr;
- ôl-ddyledion rhent;
- defnydd amhriodol o'r safle gan gynnwys gweithgarwch troseddol;
- difrod i leiniau neu flocliau amwynderau (rhai'r preswilydd neu rai preswylwyr eraill);
- ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys sŵn sy'n tarfu;
- gwrthod mynediad i'r rheolwr, yr Awdurdod Lleol neu gontractwyr sy'n cyflawni dyletswyddau ar ôl i rybudd ymlaen llaw gael ei roi;
- peidio â chadw anifeiliaid anwes o dan reolaeth briodol a pheidio â glanhau ar eu hôl; a
- cadw mwy o anifeiliaid nag y cytunwyd arno.

6.11 Dylai unrhyw reolau sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid neu ymgymryd â gweithgareddau economaidd ar y safle gael eu cynnwys o dan y telerau 'Datganedig'.

6.12 Mae gan y preswylwyr gyfrifoldeb o dan eu Cytundeb Llain i:

- Gydymffurfio â'r telerau yn y cytundeb, a all gynnwys rheolau safle penodol ('Telerau Datganedig').
- Talu ffi'r llain i reolwr / berchennog y safle.
- Talu'r holl symiau sy'n ddyledus i reolwr / berchennog y safle mewn perthynas â nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth neu wasanaethau eraill a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.
- Sicrhau bod eu cartref(i) symudol mewn cyflwr da.
- Cadw'r tu allan i'w cartref(i) symudol a'r llain, gan gynnwys ffensys a blociau cyfleustodau a ddarperir gyda'r llain, mewn cyflwr glan a thaclus.
- Os bydd preswilydd yn ceisio ad-daliad am dreuliau neu gostau brys, darparu tystiolaeth ddogfennol i berchennog / rheolwr y safle.
- Darparu rhybudd ysgrifenedig o 4 wythnos o leiaf os ydynt eisiau terfynu eu cytundeb (neu ddarparu hysbysiad ysgrifenedig yn unig ar leiniau tramwy).
- Rhoi mynediad i berchennog / reolwr y safle i'r llain o dan yr amodau yn Neddff Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

6.13 Pan fydd cytundebau'n cael eu torri, dylai rheolwr y safle i gychwyn geisio sicrhau bod y broblem yn cael ei datrys a sicrhau bod y preswylwyr yn deall bod y cytundeb wedi cael ei dorri ac y gallai fod goblygiadau i hynny. Gellid cyflawni hyn drwy drafod y sefyllfa gyda'r preswylwyr a chyhoeddi hysbysiad i ddatrys y torcytundeb. Rhaid cyflwyno'r hysbysiad hwn cyn y gellir cymryd camau mwy ffurfiol. Os yw rheolwyr safle yn ystyried cymryd camau pellach, dylent drafod y sefyllfa gyda'r rheolwr gweithredol.

Ceir enghreifftiau o gamau gweithredu posibl isod. Fodd bynnag, dylai priodoldeb pob cam gweithredu fod yn seiliedig ar ba mor ddifrifol oedd yr achos o dorri'r cytundeb a'r effaith ar fwynhad preswylwyr eraill o'u llain a'r ardal o'u hamgylch:

- dim angen cymryd camau – mae'r preswilydd wedi datrys y mater ac nid yw'n torri'r cytundeb mwyach;

- gellir rhoi rhybudd llafar am weithred llai difrifol. Ni ddylid rhoi'r rhybudd eto a dylai gael ei gofnodi;
- gellir rhoi rhybudd ysgrifenedig ar ôl rhybudd llafar neu, mewn achosion mwy difrifol, efallai mai rhybudd ysgrifenedig fydd y cam gweithredu cyntaf. Dylai hwn nodi'r gŵyn, dyddiadau ac ati, yn ogystal â champau gweithredu arfaethedig ynghyd â therfyn amser;
- gellir rhoi ail rybudd ysgrifenedig os nad yw'r gwelliant yn cael ei wneud fel y cytunwyd arno yn y rhybudd ysgrifenedig cyntaf;
- efallai y bydd angen cymryd camau cyfreithiol os nad yw'r mater wedi cael ei ddatrys neu os yw'r preswlydd / preswylwyr yn aildroseddu; a
- os bydd preswlydd yn parhau i dorri telerau'r cytundeb efallai y ceir gorchymyn Llys a fydd yn caniatáu i'r perchennog feddiannu'r llain a throi'r preswlydd allan.

6.14 Mae cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol yng nghyswllt achos terfynu i'w cael yn Atodiad 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Rhaid i benderfyniad i droi preswlydd allan o lain breswyl barhaol gael ei wneud gan y Llys. Nid oes angen cymeradwyaeth y Llys i droi preswylwyr allan o leiniau tramwy.

6.15 Er mwyn gallu troi preswylwyr allan o leiniau preswyl parhaol, bydd yn rhaid i berchnogion safleoedd roi rhesymau clir i'r Llys. Efallai y bydd y Llys yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol derfynu'r cytundeb os yw o'r farn bod hynny'n rhesymol.

6.16 Gall perchnogion safleoedd derfynu cytundebau ar gyfer lleiniau tramwy cyn y dyddiad dod i ben am unrhyw reswm, gyhyd â bod y meddiannydd yn derbyn 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig. Gall perchnogion safleoedd hefyd derfynu'r cytundeb yn gynnar os yw'r meddiannydd wedi torri telerau ei gytundeb llain ac os yw wedi methu ag unioni unrhyw achos o dorri'r cytundeb o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cael rhybudd gan yr Awdurdod Lleol i wneud hynny.

6.17 Os bydd meddiannydd yn cael ei droi allan, dylai rheolwr y safle sicrhau bod yr holl asiantaethau priodol sy'n gweithio gyda'r teulu (er enghraifft, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac addysg) yn cael eu hysbysu. Fel gydag achosion o droi allan aelodau o'r gymuned sefydlog, ni ddylid cysylltu â'r heddlu fel mater o drefn mewn achos o droi allan meddiannydd. Dim ond os rhagwelir y bydd trafferthion y dylai hynny ddigwydd.

Adran 7: Ffioedd Safleoedd

Ffioedd Lleiniau a chostau eraill

7.1 Dylai ffioedd lleiniau fod yn gymesur â maint ac amwynder y llain a'r safle, gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir ar y safle Er mai'r Awdurdod Lleol fydd yn pennu ffioedd lleiniau, cyfrifoldeb rheolwr y safle fydd ceisio sicrhau bod y preswlydd yn cael gwerth am arian.

7.2 Dim ond gyda chytundeb y preswlydd neu gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, ar ôl i berchennog y safle neu'r preswlydd wneud cais am newid, y gellir newid ffi'r llain. Rhaid adolygu ffioedd lleiniau bob blwyddyn, ar yr un dyddiad bob blwyddyn, a rhaid rhoi manylion y ffi newydd arfaethedig i breswylwyr 28 diwrnod cyn y bydd y newid yn dechrau.

7.3 Os bydd y preswlydd yn gwrthod cytuno i'r newidiadau arfaethedig i ffi'r llain, bydd y ffi gyfredol yn parhau'n daladwy tra bydd y perchennog yn penderfynu gwneud cais am benderfyniad gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl neu beidio. Os bydd y Tribiwnlys yn cytuno â'r newid arfaethedig gan berchennog y safle i ffi'r llain, bydd yn rhaid i'r preswlydd dalu'r ffi newydd am y llain o ddyddiad yr adolygiad. Ond, mae'n rhaid i'r preswlydd gael 28 diwrnod ar ôl penderfyniad y Tribiwnlys i dalu'r diffyg cyn yr ystyrir bod ganddo ôl-ddyledion.

7.4 Wrth benderfynu ar faint ffi newydd y llain, dylai perchnogion safleoedd ystyried unrhyw gostau yr oeddynt wedi'u hwynebu ers yr adolygiad diwethaf o ffi'r llain:

- a oedd o fudd i'r preswylwyr;
- yr ymgynghorwyd yn eu cylch, fel y diffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013;
- nad yw'r rhan fwyaf o'r preswylwyr wedi anghytuno â hwy yn ysgrifenedig oni bai yn achos yr anghytundeb hwn, bod perchennog y safle wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ac wedi cael penderfyniad llwyddiannus, yn cytuno y gellir cynnwys y costau hyn.

7.5 Dylai perchennog y safle hefyd ystyried unrhyw leihad yn amwynder y safle ac effaith unrhyw gyfreithiau neu ganllawiau sydd wedi dod i rym ers yr adolygiad diwethaf o ffi'r llain.

7.6 Ni ddylai perchennog y safle ystyried y costau canlynol wrth benderfynu ar y newid i ffi'r llain:

- Unrhyw gostau a wynebodd y perchennog mewn cysylltiad ag ehangu'r safle; neu
- Unrhyw gostau a wynebodd y perchennog mewn cysylltiad ag achos o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

7.7 Er enghraifft, ni ddylid cynnwys ffioedd dylunio, ffioedd y system gynllunio na chostau sy'n gysylltiedig â darparu cytundebau ysgrifenedig, gwneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl neu gymryd camau cyfreithiol yn erbyn preswylwyr.

7.8 Oni bai y byddai'n afresymol ar ôl ystyried paragraffau 7.4 – 7.7, mae rhagdybiaeth y bydd ffi'r llain yn cynyddu neu'n lleihau o ganran nad yw'n fwy na'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ers yr adolygiad diwethaf o ffi'r llain.

7.9 Lle y caiff y safle ei reoli gan sefydliad allanol dan gcontract, yr Awdurdod Lleol ddylai bennu ffioedd lleiniau o hyd. Ond, bydd hyn yn gofyn am gydgyssylltu agos â'r sefydliad sy'n rheoli'r safle.

7.10 Bydd ffioedd gormodol yn rhwystr ac yn y tymor hir gallant fod yn wrthgynhyrchiol. Gwyddys bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn profi tlodi, mawr a all eu hatal rhag gallu talu ffioedd uchel.

7.11 Rhaid i'r cytundeb llain ei gwneud yn glir i'r preswylwyr beth fydd cost ffi'r llain a diffinio costau gwasanaethau eraill ar wahân. Er enghraifft, efallai y bydd y cytundeb llain yn cynnwys gwybodaeth am gostau dŵr a charthffosiaeth am y flwyddyn honno.

7.12 Dylai'r gwasanaethau (e.e. casglu sbwriel, gwasanaethau post) a ddarperir ar y safle fod yr un fath â'r rhai a ddarperir ar gyfer tai cymdeithasol, lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir fod yr un fath i bob llain.

7.13 Dylai pob preswilydd gael llyfr rhent neu ddull arall addas o gofnodi taliadau i'r Awdurdod Lleol.

7.14 Os bydd tenant yn cael trafferth talu ffi'r llain dylai gysylltu â rheolwr y safle neu staff yr Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl i drafod ffordd y ddatrys y mater.

7.15 Dylai rheolwr y safle drin unrhyw wybodaeth a roddir yn gyfrinachol a dylai ddangos cydymdeimlad a doethineb wrth drafod materion personol. Dylid esbonio cyfrinachedd i'r preswilydd a dylai hefyd fod yn rhan o'r contract rheoli rhwng rheolwr y safle a'r Awdurdod Lleol a dylai gael ei ailddatgan yn y cytundeb er budd y tenant. Rhaid trin unrhyw wybodaeth bersonol sensitif yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Credyd Cynhwysol / Budd-dal Tai

7.16 Mae Budd-dal Tai, wrth gwrs, yn ffordd dderbyniol o dalu, ond cyfrifoldeb y preswylwyr yw trefnu hyn. Ond, gall rheolwr y safle dynnu sylw'r preswylwyr ato fel opsiwn a'u hatgoffa am unrhyw faterion sydd heb gael sylw.

7.17 Mae'n dderbyniol i reolwr y safle helpu'r preswilydd (os oes angen) i wneud cais am Credyd Cynhwysol. Ond, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cywirdeb y cais o hyd ac nid yw'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i reolwr y safle.

7.18 Dylai rheolwr y safle annog y preswylwyr i roi gwybod i'r awdurdodau neu'r adrannau perthnasol am unrhyw newid i amgylchiadau a all effeithio ar eu budd-daliadau.

Adran 8: Cynnal a Chadw'r Safle

Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw

8.1 Mae'n bwysig fod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynnal a'u cadw i safon resymol i sicrhau parhad incwm o ffioedd lleiniau a chynaliadwyedd y safle. Gall costau cynnal a chadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fod yn uwch na chostau mathau eraill o dai. Felly, mae'n bwysig iawn bod rhaglen cynnal a chadw wedi'i chynllunio ar waith yn ogystal â chynllun cynnal a chadw ymatebol.

8.2 I sicrhau bod safleoedd yn cael eu cadw mewn cyflwr da, dylai rheolwr y safle a'r rheolwr gweithredol weithio ar y cyd i sicrhau bod cynllun cynnal a chadw realistig ac iddo derfynu amser yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith.

8.3 Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol am atgyweirio a chynnal a chadw:

- Llawr y llain.
- Unrhyw wasanaethau nwy, trydan, dŵr carthffosiaeth neu wasanaethau eraill a ddarperir gan berchennog y safle i'r llain neu'r cartref symudol.
- Unrhyw amwynderau eraill a ddarperir gan y perchennog ar y llain, gan gynnwys unrhyw adeiladau allanol a chyfleusterau a ddarperir.
- Rhannau o'r safle nad yw deiliaid cytundebau llain unigol yn gyfrifol amdanynt gan gynnwys ffensys ffiniau, ffyrdd mynediad a choed.

8.4 Dylai'r cynllun cynnal a chadw ddiffinio'n glir y dyletswyddau beunyddiol sydd i'w cyflawni gan reolwr y safle a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar raddfa fwy ynghyd â chyllideb. Hefyd, bydd angen cynnwys gwaith brys, a phennu cyllideb fras benodol ar ei gyfer.

8.5 Bydd gan lawer o safleoedd ardal laswelltog neu ardal wedi'i thirlunio. Os yw'r rhain ar gael, bydd angen eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Bydd cadw'r glaswellt yn fyr nid yn unig yn helpu i atal perygl tân ond bydd hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ar y safle ac yn helpu i atal unrhyw deimladau o elyniaeth rhwng y safle a'r gymuned sefydlog. Hefyd, gall ardaloedd glaswelltog ddarparu ardaloedd chwarae pwysig i blant a phobl eraill sy'n byw ar y safle. Efallai mai adrannau eraill yn yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am swyddogaethau fel torri gwair ond dylai rheolwr y safle sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn rheolaidd.

8.6 Fel y nodir yn y canllawiau *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*, gall ardaloedd cymunedol achosi problemau onid oes diben benodol iddynt gan y gallant gael eu camddefnyddio. Os yw ardaloedd wedi'u tirlunio i'w defnyddio fel ardaloedd chwarae, dylid dweud wrth y preswylwyr am y diben hwn a sicrhau eu bod yn gwybod na fydd camddefnyddio'r ardaloedd hyn yn cael ei oddef.

8.7 Cyfrifoldeb rheolwr y safle fydd atal sbwriel rhag cronni yn yr ardaloedd cymunedol. Dylai rheolwr y safle drefnu bod sbwriel yn cael ei glirio cyn gynted ag y bo modd, naill ai fel rhan o'i ddyletswyddau neu drefnu i'r Awdurdod Lleol ei gasglu. Dylai llwybrau cymunedol a ffyrdd ar y safle gael eu sgubo'n rheolaidd. Dylai cwteri ffyrdd hefyd gael eu clirio'n rheolaidd.

8.8 Gellid nodi yn y cytundeb llain yr eir ati'n frwd i ymdrin â thipio anghyfreithlon drwy Hysbysiad Cosb Benodedig a chamau cyfreithiol dilynol Mae hyn yn adlewyrchu'r camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn aelodau'r gymuned sefydlog. Os yw tipio anghyfreithlon yn digwydd yn gyson, gall hysbysiadau ar y safle fod yn ddefnyddiol i'w atal. Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd a gall y troseddwr wynebu dedfryd o garchar a / neu ddirwy o hyd at £50,000, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y trosedd.

8.9 Dylai rheolwr y safle geisio sicrhau bod y cyfarpar a'r cyfleusterau a ddarperir ar y safle yn cael eu cadw mewn cyflwr rhesymol i'w defnyddio a'u bod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch.

8.10 Lle y mae cyfleusterau chwarae ar gael, dylai rheolwr y safle eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel. Os bydd angen eu hatgyweirio, dylai rheolwr y safle hysbysu'r adran berthnasol. Os ystyrir bod cyfarpar yn beryglus, ni ddylai gael ei ddefnyddio. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ddychwelyd mewn cyflwr rhesymol, cyn gynted ag y bo modd. Dylid rhoi syniad i'r preswylwyr faint fydd y gwaith atgyweirio'n ei gymryd.

8.11 Dylid cael cynllun cynnal a chadw ar waith i ddelio ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw arferol Dylai'r cynllun hwn gael ei lunio ymlaen llaw gan reolwr y safle a dylai'r Awdurdod Lleol gytuno arno. Dylid cael cyllideb ar waith i adlewyrchu lefel y gwaith cynnal a chadw gofynnol.

8.12 Dylai rheolwr y safle gynnal archwiliadau arferol o'r blociau amwynder, yn fewnol ac yn allanol, a hysbysu'r Awdurdod Lleol yn syth am unrhyw ddiffygion neu waith atgyweirio gofynnol. Dim ond at ddibenion cynnal a chadw y dylid cynnal archwiliadau a dylai'r archwiliadau mewnol gael eu cadw i derfyn rhesymol er mwyn osgoi tarfu ar breswylwyr. Dylid hysbysu preswylwyr y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal a dylid rhoi rhybudd iddynt yn unol â thelerau'u cytundeb.

8.13 Dylid annog preswylwyr i roi gwybod am ddiffygion ac eitemau y mae angen eu hatgyweirio. Lle y bydd pryderon yn codi, dylai rheolwr y safle eu nodi a'u cofnodi bob amser a'u harchwilio'n brydlon bob amser.

Adran 9: Gwasanaethau a Chyfleustodau ar y safle

Cyflenwadau Nwy a Thrydan a Thalu

9.1 Wrth ymgynghori ag Awdurdodau Lleol a phreswylwyr mae'n amlwg mai'r dull a ffafrir ar gyfer cyflenwi trydan a thalu amdano yw perthynas uniongyrchol rhwng y cyflenwr a'r preswylwyr. Ond, mae'r cysylltiadau uniongyrchol hyn fel cwsmeriaid yn brin ar hyn o bryd ar safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr. Argymhellir yn gryf bod perchnogion safleoedd yn ymgynghori â phreswylwyr ynghylch y dull o gyflenwi trydan / talu a ffefrir ganddynt, a cheisio cyflawni hyn drwy gydgyssylltu â'r cyflenwr trydan.

9.2 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid, lle y bo modd, yw'r ffordd orau o sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn gallu cael mynediad cyfartal at filiau teg. Byddai'r system hon yn adlewyrchu'r system a ddefnyddir yn y farchnad tai cymdeithasol, lle na fyddai'n rhaid i denantiaid fel arfer dalu eu biliau drwy law Awdurdod Lleol.

9.3 Pan fydd cyflenwyr trydan yn caniatáu cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid, gallai preswylwyr gael bil am y trydan y mae hwy eu hunain yn ei ddefnyddio, yn hytrach na chyfran gyfartal o'r defnydd drwy'r safle i gyd. Efallai hefyd mai dim ond os gall preswylwyr ddangos bod eu biliau'n ymwneud â chostau eu defnydd hwy yn unig y byddant yn gymwys i gymryd rhan mewn cynlluniau grant arbed ynni.

9.4 Lle nad oes modd cael cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid, dylai rheolwyr safle esbonio'r rhesymau'n llawn i breswylwyr a chysylltu â chyflenwyr i sicrhau bod y preswylwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

9.5 Ni fyddai cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid yn briodol ar gyfer safleoedd tramwy, lle mai dim ond am dri mis y caiff meddianwyr aros. Yn yr amgylchiadau hynny, efallai y bydd yn fwy priodol i'r Awdurdod Lleol fod yn gwsmer i'r cwmni trydan.

9.6 Lle y defnyddir cardiau / talebau talu / allweddi dylai'r rhain fod ar gael gan reolwr y safle ac mewn un man arall o leiaf, er enghraifft siop leol. Mae'n bwysig nad yw preswylwyr yn cael eu hatal rhag prynu talebau / cardiau trydan am nad yw rheolwr y safle ar gael. Rhaid i berchnogion safleoedd a rheolwyr dan gontract beidio â gwneud elw o werthu cardiau / talebau trydan.

9.7 Mewn achosion lle na ellir bilio preswylwyr yn uniongyrchol am eu trydan, mae'n dderbyniol i Awdurdodau Lleol gasglu taliadau ar yr un pryd â'r ffioedd lleiniau. Ond, ni ddylai'r costau hy fod yn rhan o ffi'r llain ei hun. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r taliadau yn rhad ac am ddim os bydd y preswilydd yn gofyn am hynny.

9.8 Gellir defnyddio cynwysyddion / poteli nwy ar y safle. Dylid sicrhau mai cyfrifoldeb preswylwyr yw defnyddio a storio'r cynwysyddion hyn yn ddiogel a'r preswylwyr ddylai fod yn gyfrifol am gael gwared â chynwysyddion gwag oddi ar y lleiniau a'u rhoi naill ai mewn man casglu neu mewn cyfleusterau storio ar y safle. Mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei blismona'n gywir i atal cynwysyddion gwag rhag troi'n berygl tân.

9.9 Gall rheolwyr safle ddarparu cyfleusterau storio ar y safle ond y preswylwyr ddylai fod yn gyfrifol o hyd am storio, defnyddio a chael gwared â chynwysyddion oddi ar y llain.

Cyflenwad Dŵr a Thalw

9.10 Argymhellir y dylai fod gan breswylwyr gysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid â chyflenwyr dŵr er mwyn sicrhau y gallant gael mynediad cyfartal at filio teg. I gyflawni hyn, rhaid adeiladu safleoedd i ddiwallu gofynion y cwmni dŵr perthnasol.

9.11 Efallai na fydd modd cael cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid gyda chyflenwyr dŵr ar safleoedd cyfredol oherwydd nad yw seilwaith y safle o bosib yn cydymffurfio â safonau gofynnol y cwmni dŵr. Ar y safleoedd hyn, dylai Awdurdodau Lleol yn hytrach ystyried darparu mesuryddion ar gyfer lleiniau unigol. Ond, dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'i breswylwyr ynghylch a fyddai'n well ganddynt gael mesurydd neu barhau â'r trefniant presennol. Os caiff mesuryddion eu gosod, dylai'r bil dŵr gael ei rannu yn ôl y defnydd gwirioneddol sy'n cael ei fonitro gan y mesuryddion.

9.12 Yn ddelfrydol dylid cael mesurydd dŵr ar bob llain i sicrhau bod y defnydd gwirioneddol o ddŵr yn cael ei gofnodi a fydd yn galluogi preswylwyr i gymryd cyfrifoldeb am dalu am yr hyn maent yn ei ddefnyddio. Dylid cael mesurydd ar gyfer y cyflenwadau dŵr cymunedol a gall cost hyn gael ei hadfer drwy ffioedd y lleiniau. Byddai mesuryddion yn cael eu gosod gan y cwmni dŵr os ydynt wedi cytuno i ddarparu cysylltiadau unigol i brif bibell y cwmni dŵr.

9.13 Mae defnyddio mesuryddion i ddsrannu costau heb gysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid yn golygu y bydd aelwydydd sy'n defnyddio mwy na'r cyffredin yn gorfod talu costau ychwanegol yn y pen draw. Er y gall hyn adlewyrchu eu defnydd o ddŵr, ni fydd preswylwyr Sipsiwn a Theithwyr yn gymwys ar gyfer tariffau cymdeithasol y cwmni dŵr. O dan yr amgylchiadau hyn, gallai teuluoedd mwy o faint sydd o bosibl yn wynebu tlodi fod o dan anfantais.

9.14 Dylai Awdurdodau Lleol ystyried effaith y penderfyniadau hyn ac ymgynghori â phreswylwyr er mwyn dod o hyd i'r ffordd fwyaf synhwyrol o symud ymlaen.

9.15 Disgwylir i Awdurdodau Lleol fonitro a rheoli effeithlonrwydd o ran cyflenwadau dŵr ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn sicrhau bod y gwastraff o arferion aneffeithlon a dŵr yn gollwng mor isel â phosibl a fydd wedyn yn golygu bod costau cyflenwadau dŵr a charthffosiaeth i safleoedd mor isel â phosibl.

9.16 Os bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu casglu costau dŵr a charthffosiaeth ar yr un pryd â ffi'r llain, dylai preswylwyr gael gwybod faint o'r ffi sy'n ymwneud â chostau dŵr. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r taliadau yn rhad ac am ddim os bydd y preswlydd yn gofyn am hynny.

9.17 Er bod preswylwyr ar y safleoedd hyn yn wynebu tlodi mawr o bosibl ac efallai nad ydynt yn gallu cael cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid, nid yw'n dderbyniol i Awdurdodau Lleol fod yn gyfrifol am gost gyfan cyflenwadau dŵr lleiniau. Mae'n bwysig fod preswylwyr yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu defnydd ac mae'n rhaid iddynt gyfrannu at gostau cyflenwi a draenio. Serch hynny, ni ddylai Awdurdodau Lleol droi preswylwyr allan dim ond oherwydd nad yw biliau dŵr wedi cael eu talu.

9.18 Ni fyddai cysylltiadau uniongyrchol fel cwsmeriaid yn briodol ar gyfer safleoedd tramwy, lle mai dim ond am dri mis y caiff meddianwyr aros. Yn yr amgylchiadau hynny, efallai y bydd yn fwy priodol i'r Awdurdod Lleol fod yn gwsmer i'r cwmni dŵr.

Casglu Gwastraff ar y safle

9.19 Yn unol ag Adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff. Yn ddelfrydol, dylai gwastraff gael ei gasglu o leiniau unigol bob wythnos neu bob pythefnos, yn dibynnu ar bolisi casglu sbwriel yr Awdurdod Lleol. Dylai rheolwr y safle weithio gydag adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei gasglu a bod unrhyw gynwysyddion ychwanegol yn cael eu darparu i'r safle.

9.20 Yn ddelfrydol, dylai fod modd i lorïau casglu sbwriel fynd i mewn i'r safle. Ond, efallai y bydd seilwaith rhai safleoedd cyfredol yn atal hyn.

9.21 Os oes rhwystrau ar draws y fynedfa, rheolwr y safle sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhain yn cael eu hagor er mwyn i'r gwasanaethau casglu gael mynediad. Yn ogystal, rhaid i reolwr y safle sicrhau nad oes dim yn atal mynediad i'r safle.

9.22 Gall trefniadau casglu gwastraff a rheoli gwael naill ai gan y preswylwyr neu'r gwasanaethau casglu arwain at beryglon iechyd difrifol.

9.23 Dylid darparu cyfleusterau ailgylchu ar y safle. Dylai rheolwyr safle gysylltu ag adran Iechyd yr Amgylchedd i drefnu i gyfleusterau ailgylchu priodol a digonol gael eu darparu. Dylai'r cyfleusterau hyn adlewyrchu anghenion y safle gan gynnwys ailgylchu domestig arferol yn unol â'r cyfleusterau a ddarperir ar gyfer mathau eraill o ddarpariaeth tai yn yr Awdurdod Lleol.

9.24 Dylai preswylwyr gael eu hannog hefyd i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd eisoes ar gael yn y gymuned ehangach, megis Safleoedd Amwynder Dinesig, ar gyfer eitemau mwy. Ond, lle y caniateir gweithgareddau masnachol ar y safle a lle mae'n debygol y bydd angen i breswylwyr fynd â gwastraff i Safle Amwynder Dinesig sawl gwaith yr wythnos, efallai y bydd rheolwyr safle am ystyried trefnu casgliad neu ddarpariaeth arbenigol. Efallai y bydd tâl ychwanegol yn cael ei godi am y gwasanaeth hwn.

9.25 Dylai'r Cytundeb Llain nodi'n glir, er mai rheolwr y safle sy'n gyfrifol am drefnu gwasanaeth casglu gwastraff arferol, mai cyfrifoldeb y preswylwyr yw sicrhau bod sbwriel yn cael ei storio'n briodol ac ar gael i'w gasglu.

9.26 Efallai y gall Awdurdodau Lleol sy'n rhedeg safleoedd neu breswylwyr safleoedd eu hunain gael cyngor ar ffyrdd o arbed arian ar ynni, dŵr a gwastraff drwy'r corff Cymru Effeithlon I gael cyngor a chymorth ar gyfer canfod ffyrdd o wella effeithlonrwydd, ffoniwch 0300 123 2020 neu fynd i <http://resourceefficient.gov.wales/?skip=1&lang=cy>.

Darparwyr Gwasanaethau 'Allgymorth'

9.27 Dylai fod ymgysylltu ag unrhyw ddarparwyr gofal cymdeithasol sy'n monitro lles preswylwyr ar y safle. Rhan o swyddogaeth rheolwr y safle yw sicrhau nad yw amodau'r safle yn atal mynediad at wasanaethau, a bod y rhai y mae angen iddynt gael mynediad i'r safle yn cael y mynediad hwnnw. Dylai rheolwr y safle helpu preswylwyr i drefnu apwyntiadau neu ymweliad lle y bo angen.

9.28 Mae cydgysylltu â Gwasanaethau Addysg Teithwyr ac asiantaethau priodol eraill yn hanfodol i sicrhau cynhwysiant a chyfle cyfartal i blant Sipsiwn a Theithwyr. Dylid meithrin a chynnal cysylltiadau ar y safle ac oddi arno a dylai rheolwr y safle unwaith eto sicrhau bod yr adrannau priodol yn cael gwybod pan fydd plant yn cyrraedd y safle a gweithio i sicrhau bod plant ar y safle yn cael gafael ar wasanaethau.

9.29 Efallai y bydd bydwragedd cymunedol ac ymwelwyr iechyd am ddefnyddio unrhyw swyddfa ar y safle i gynnal ymgynghoriadau a chlinigau brechu ar y safle. Lle y mae cyfleusterau ar gael ar y safle, efallai y bydd rheolwyr safle am hysbysu byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn gwybod y gallant ddarparu eu gwasanaethau ar y safle.

9.30 Efallai y bydd gwasanaethau eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf neu Dechrau'n Deg, am ddefnyddio'r adeiladau cymunedol ar y safle i ddarparu gwasanaethau i aelodau cymwys o'r gymuned. Gall hyn gynnwys sesiynau 'Iaith a Chwarae', llythrennedd i oedolion, bwyta'n iach, mam a'i phlentyn neu sesiynau eraill.

Yr Heddlu

9.31 Mae'r berthynas rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r Heddlu yn gallu bod yn anodd ar brydiau. Ond, mae gan breswylwyr ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr un hawl â'r gymuned sefydlog i wasanaethau gan yr Heddlu. Dylai rheolwr y safle weithio tuag at feithrin perthynas dda rhwng y preswylwyr a'r heddlu lleol, yn enwedig o ran annog preswylwyr i roi gwybod i'r heddlu am droseddau ar y safle, yn ogystal â throseddau casineb a cham-drin / ymddygiad hiliol tuag atynt.

9.32 Mae gelyniaeth neu ragfarn tuag at Sipsiwn a Theithwyr yn gallu digwydd yn aml a gallai gynnwys cael eu targedu'n gyson ar raddfa fach neu densiynau sylweddol a grëir drwy gynigion i ddatblygu safleoedd newydd yn lleol. Dylai rheolwr y safle annog a chynghori preswylwyr ynghylch cyfleoedd i roi gwybod am ddigwyddiadau neu droseddau casineb i'r Heddlu neu i'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a redir gan Cymorth i Ddiodefwyr Cymru drwy linell gymorth annibynnol rhad ac am ddim 0300 30 31 982 (Am ddim 24/7) neu ar-lein www.reporthathe.victimsupport.org.uk. Mae gan Achub y Plant hefyd ganolfan adrodd genedlaethol i blant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr lle gallant roi gwybod am achosion o aflonyddu neu droseddau casineb.

9.33 Gall perthynas dda â'r heddlu helpu i ddiogelu preswylwyr y safle, yn enwedig rhag dylanwadau allanol, a thrwy ddiogelu staff sy'n gweithio ar y safle hefyd.

9.34 Dylai'r heddlu gael yr un mynediad i safle Sipsiwn a Theithwyr ag y maent yn ei gael i unrhyw gymuned breswyl arall ac mae rheolau ynghylch gwarantiau ac ati yr un mor gymwys.

9.35 Dylai rheolwr y safle geisio hyrwyddo perthynas dda rhwng y preswylwyr a'r Heddlu drwy ymgysylltu â Swyddog Cymorth Cymunedol lleol yr Heddlu a, lle y bo angen, Swyddog Amrywiaeth yr Heddlu. Dylai hyn helpu i ennyn parch rhwng preswylwyr a'r Heddlu, sicrhau ymwybyddiaeth ddiwylliannol ddefnyddiol pan fydd yr Heddlu yn gweithredu ar y safle a rhoi cyfle i'r Heddlu weithio gyda'r cymunedau hyn y tu allan i gyd-destun gorfodi'r gyfraith.

Gwasanaethau Brys Eraill

9.36 Dylai rheolwyr safle sicrhau y gall cerbydau brys gyrraedd y safle pan fo angen. Os oes rhwystr ar y fynedfa, dylai rheolwr y safle sicrhau bod gan bob gwasanaeth y cod neu'r allwedd gyfredol i'w agor. Oni wneir hyn, gall bywydau a / neu eiddo fod mewn perygl. Dylai preswylwyr fod yn ymwybodol nad yw'n dderbyniol atal mynediad i gerbydau brys ac y bydd hyn gyfystyr ag achos difrifol o dorri'u cytundeb llain.

9.37 Dylai'r gwasanaethau brys fod yn gyfarwydd â chynllun y safle a chael copi o gynllun y safle. Dylai hwn gynnwys manylion hydrantau neu bibellau dŵr. Dylent hefyd gael manylion cysylltu perthnasol.

9.38 Efallai y bydd angen i Wasanaethau Tân Lleol gael mynediad i archwilio'r safle i sicrhau nad yw'r carafannau nac unrhyw agwedd arall ar y safle yn torri rheoliadau tân a hefyd i asesu lefel a chyflwr y cyfarpar diffodd tân ar y safle. Cyfrifoldeb rheolwr y safle yw cydgysylltu â'r Gwasanaeth Tân i drefnu ymweliadau. Dylai'r preswylwyr gael eu hysbysu cyn i archwiliadau gael eu cynnal. Mae'n hollbwysig o ran iechyd a diogelwch bod mynediad yn cael ei ganiatáu a bod perthynas dda yn cael ei meithrin. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y rheolwr gweithredol yw sicrhau y cydymffurfir â safonau Diogelwch Tân.

9.39 Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi nodi bod pibellau dŵr wedi cael eu camdefnyddio neu eu fandaleiddio ar safleoedd lle mae'r rhain wedi cael eu darparu. Dylid dweud wrth breswylwyr mai at ddibenion brys yn unig y dylai'r pibellau gael eu defnyddio, ac y gall y defnydd ohonynt at ddibenion eraill fod yn gyfystyr ag achos difrifol o dorri'u cytundeb llain.

9.40 Dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân Lleol i asesu'r angen am bibellau dŵr ac atebion posibl os yw fandaliaeth yn dal i fod yn broblem.

Gwasanaethau Post

9.41 Mae gan breswylwyr safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol yr hawl i gael yr un lefel o wasanaethau post â phobl eraill sy'n byw mewn mathau eraill o dai. Dylai rheolwr y safle gydgysylltu â'r Post Brenhinol er mwyn sicrhau y caiff y safle ei gydnabod fel ardal breswyl.

9.42 Nid yw'n dderbyniol i'r holl bost gael ei ddsbarthu i un llain ar y safle. Os digwydd hyn, cyfyd problem ddifrifol o ran diogelwch a chyfrinachedd.

9.43 Dylai fod gan bob llain ei chyfeiriad ei hun, na ddylai nodi bod y safle yn safle Sipsiwn a Theithwyr.

9.44 Mae rhai gweithwyr post wedi gwrthod dosbarthu post yn uniongyrchol i leiniau yn y gorffennol am nifer o resymau, er enghraifft cŵn nad ydynt yn cael eu rheoli'n briodol Lle mae hyn yn digwydd, dylai rheolwr y safle nodi'r broblem a cheisio'i datrys gyda phreswylwyr y safle a swyddfa'r post er mwyn ailsefydlu'r gwasanaeth i'r lleiniau.

Y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr Ehangach

9.45 Mae'n bwysig bod rheolwyr safle yn ymwybodol o symudiadau Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal ac yn ymwybodol o'r effeithiau y gallant eu cael ar y safle. Lle y ceir Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr, bydd angen cydgysylltu agos rhwng y deiliaid swydd hyn.

9.46 Gall symudiadau'r gymuned ehangach effeithio ar y safle o ran teuluoedd yn gadael y safle i fynd i deithio neu ymwelwyr yn dod i'r safle, fel y trafodir yn Adran 10: Defnyddio'r Safle.

9.47 Lle mae aelwydydd yn ymweld â'r ardal ac yn meddiannu gwersylloedd diawdurdod, dylai'r Awdurdod Lleol ymweld â'r gwersylloedd a chynnal asesiadau angenrheidiol, yn unol â phrotocol / strategaeth yr awdurdod lleol ynglŷn â gwersylloedd diawdurdod a chanllawiau ar *Reoli Gwersylloedd Diawdurdod Llywodraeth Cymru*.¹²

9.48 Gall yr asesiadau hyn ddatgelu bod angen i'r gwersyllwyr gael llety cartrefi symudol parhaol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried dyletswyddau eraill a all fod ganddo gan gynnwys dyletswyddau Digartrefedd a Thai eraill.

9.49 Dylai'r Awdurdod Lleol hysbysu rheolwr y safle a'r rheolwr gweithredol lle mae gwersylloedd o'r fath wedi digwydd am fod preswylwyr sy'n ymweld ar y safle.

Diogelwch safleoedd

9.50 Rheolwr y safle sy'n gyfrifol am ymdrin â gwersylloedd diawdurdod ar y safle ac am hysbysu'r rheolwr gweithredol am unrhyw wersylloedd o'r fath.

9.51 Mae ymgynghoriadau wedi dangos nad yw preswylwyr safleoedd ar y cyfan am gael system teledu cylch cyfyng ar y safle.¹³ Ond weithiau, mae teledu cylch cyfyng yn hanfodol ar safle i atal troseddu. Lle mae awdurdod lleol yn gosod system teledu cylch cyfyng, dylai hyn gael ei wneud ar ôl ymgynghori â'r holl breswylwyr.

9.52 Mae'n rhaid i breifatrwydd preswylwyr gael ei barchu bob amser. Ni ddylai fod modd i gamerâu teledu cylch cyfyng gael eu cyfeirio i mewn i leiniau sydd wedi'u meddiannu ac ni ddylent amharu ar fwynhad preswylwyr o'u llain. Os penderfynir gosod system teledu cylch cyfyng, byddai'n fuddiol pe bai rheolwr y safle yn dangos i breswylwyr sut mae'r system yn gweithio a'r hyn y bydd yn ei recordio. Lle y caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod, rheolwr y safle fydd yn gyfrifol am sicrhau ei bod mewn cyflwr da.

9.53 Mae delweddau teledu cylch cyfyng sy'n dangos unigolion y gellir eu hadnabod yn dod o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ac felly, rhaid eu trin yn yr un ffordd â data personol arall. Dylai'r Awdurdod Lleol osod arwyddion yn dweud wrth breswylwyr ac ymwelwyr fod teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio, pwy sy'n rheoli'r system a pham. Hefyd, bydd angen i Awdurdodau Lleol benderfynu am faint y byddant yn cadw'r ffilmiau o'r camerâu a sut y gall preswylwyr ac ymwelwyr weld eu delweddau os cyflwynir cais gwrthrych am wybodaeth. Yn olaf, rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod monitoriaid y teledu cylch cyfyng yn ddiogel ac na all pobl ddiawdurdod eu gwyllo.

¹² Llywodraeth Cymru, 'Rheoli Gwersylla Diawdurdod' (2013): <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/accommodation-needs/?skip=1&lang=cy>

¹³ Ymgynghoriad ar Ganllawiau Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, 2009.

Adran 10: Defnyddio'r Safle

Absenoldeb Byrdymor

10.1 Dylid caniatáu cyfnodau o absenoldeb o'r llain yn y cytundeb llain. Dylai preswylwyr wybod am faint o amser y caniateir iddynt fod yn absennol o'r llain.

10.2 Dylai preswylwyr hysbysu rheolwr y safle pryd y bwriadant fod oddi ar y safle am gyfnod. Yn ystod cyfnodau o absenoldeb, dylai preswylwyr barhau i dalu ffioedd am leiniau a ddyrannwyd ac ni ddylai lleiniau gwag dros dro gael eu hailddyrranu i eraill.

10.3 Lle y bydd preswylwyr yn torri'r cytundeb ynglŷn ag absenoldeb byrdymor o'r safle, er enghraifft, drwy estyn eu cyfnod o absenoldeb y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno heb hysbysu rheolwr y safle, gall yr Awdurdod Lleol ystyried terfynu'r cytundeb.

10.4 Yr Awdurdod Lleol sy'n pennu am faint y gellir bod yn absennol ar y mwyaf yn ystod absenoldeb byrdymor ond dylai ystyried sut y gellir hwyluso absenoldeb oherwydd arferion diwylliannol traddodiadol wrth wneud ei benderfyniad. Ond, fel gyda rheoliadau'r Budd-dal Tai, ystyrir bod uchafswm o 13 wythnos i ffwrdd mewn blwyddyn galendr yn dderbyniol heb i hynny achosi problemau. Byddai gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn. Ond, efallai na fydd taliadau'r Budd-dal Tai yn parhau er y byddai ffioedd lleiniau yn parhau i orfod cael eu talu.

Visitors

10.5 Mae gan breswylwyr safleoedd hawl i dderbyn ymwelwyr, ond ni ddylid caniatáu i ymwelwyr droi'n feddianwyr parhaol. Er mwyn atal hyn, ni ddylid caniatáu i gartrefi symudol sy'n eiddo i ymwelwyr (yn hytrach na'r rhai sy'n aros am benderfyniad ar gais am lain) symud ar leiniau gwag. Y tenant sy'n gyfrifol am unrhyw ymwelwyr â'i lain a gall fod yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir ganddynt.

10.6 Lle y bo modd, dylai preswylwyr hysbysu rheolwr y safle eu bod yn disgwyl ymwelwyr sy'n dod â'u carafannau eu hunain a fydd efallai am aros dros nos neu am gyfnod hwy. Dylent nodi faint o amser y mae'r ymwelwyr yn bwriadu aros a dylid cadw at hyn. Argymhellwn y dylid cytuno ar arhosiad o hyd at bedair wythnos olynol, er y gall hyn fod yn fyrrach lle mae safleoedd yn orlawn.

10.7 Lle mae safleoedd yn orlawn, efallai y bydd carafannau ychwanegol yn achosi problemau iechyd a diogelwch neu bryderon tân. Os felly, gall rheolwr y safle gyfyngu ar nifer y cartrefi symudol a ganiateir ar y safle. Dylai preswylwyr gael eu hysbysu am hyn. Rhaid i gartrefi symudol sy'n ymweld beidio â thorri rheoliadau tân.

Anifeiliaid

10.8 Dylid caniatáu anifeiliaid anwes (cŵn, cathod ac ati) ar y safle. Yn achos cŵn, rhaid i'r perchennog gael ei nodi'n briodol a rhaid i'r anifeiliaid gael eu rheoli'n briodol ar y llain bob amser. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu bod unrhyw anifeiliaid ychwanegol yn torri polisi'r safle ac yn torri'r cytundeb llain oni cheir caniatâd rheolwr y safle. Er enghraifft, gellid caniatáu torllwyth o gŵn bach ond dylid cytuno ar derfyn amser. Dylai preswylwyr drafod eu cynlluniau i gadw anifeiliaid gyda rheolwr y safle.

10.9 Dylid gwrthod caniatáu perchenogaeth o gŵn peryglus, o fewn diffiniad Deddf Cŵn Peryglus 1991 (fel y'i diwygiwyd), o fewn y safle preswyl. Os bydd rheolwyr safle yn pryderu am les anifeiliaid ar y safle, dylid hysbysu'r awdurdodau priodol.¹⁴

10.10 Argymhellir yn gryf na ddylai ceffylau gael eu cadw ar leiniau. Mae pryderon iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â chadw ceffylau ar leiniau a gallant darfu ar y safle ac achosi difrod i gyfleusterau a ffyrdd. Os yw Awdurdodau Lleol am atal ceffylau rhag cael eu cadw ar y safle, rhaid i hyn gael ei gynnwys fel un o'r telerau 'Datganedig' yn eu Cytundebau Llain.

Tir pori

10.11 Lle mae galw am dir pori neu lle mae angen cyfleusterau stablau ar breswylwyr dylai'r rhain gael eu trefnu'n breifat. Os yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon gwneud hynny, gall ddarparu tir am gost ychwanegol i'r rhai a fydd yn defnyddio'r tir, wrth ymyl y safle. Dylai fod gan y tir hwn ffiniau clir a sicr a dylid gosod giatiau cadarn.

10.12 Mae gan Sipsiwn a Theithwyr draddodiadau diwylliannol cryf o gadw ceffylau ac mae rhai aelodau o'r gymuned wedi honni bod gwahaniaethu yn eu hatal rhag cael mynediad i dir pori addas i'w ceffylau. Anogir Awdurdodau Lleol i ystyried faint o dir pori sydd ar gael wrth nodi safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried defnyddio tir yn eu hystad eu hunain ar gyfer prydlesau pori byrdymor.

Safleoedd gwaith a phreswyl cymysg

10.13 Argymhellir yn gryf na ddylid caniatáu i breswylwyr weithio ar leiniau preswyl parhaol. Mae pryderon iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â gweithio ar safleoedd a bydd y defnydd o offer trwm yn peri i ffyrdd ddirywio ac yn peryglu preswylwyr eraill o bosibl, yn enwedig plant.

10.14 Efallai y bydd rhai Sipsiwn a Theithwyr am weithredu eu busnesau ar y safle. Lle y bydd Awdurdodau Lleol yn caniatáu hyn, cyfrifoldeb rheolwr y safle a'r rheolwr gweithredol yw ceisio sicrhau bod y safle yn ddiogel.

10.15 Dylai Awdurdodau Lleol ystyried a yw anghenion busnes penodol y preswylwyr yn gofyn am gyfleusterau gweithio neu storio penodol ar rannau ar wahân o'r safle neu a allai aelodau o'r gymuned brydlesu eiddo masnachol gerllaw fel y byddai'n ofynnol i fasnachwyr o gymunedau eraill ei wneud.

10.16 Er enghraifft, efallai y bydd angen manau penodol i storio a chynnal a chadw cyfarpar ffeiriau ar safleoedd i Siewmyn Teithiol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai angen arbennig i ddeliwr metel sgrap sy'n gweithio fel casglwr symudol storio metel sgrap ar y llain.

10.17 Gall perchnogion safleoedd Awdurdod Lleol gynnwys telerau 'Datganedig' mewn cytundebau llain sy'n gwahardd y defnydd o'r llain / safle at ddibenion masnachol.

¹⁴ Ceir rhagor o arweiniad yng Nghodau Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Geffylau, Cathod a Chŵn sydd ar gael yn <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/?skip=1&lang=cy>

Adran 11: Ymddygiad ar y safle

11.1 Dylai fod gan Awdurdodau Lleol bolisiau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar waith. Dylai'r rhain fod yn gymwys i breswylwyr safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn yr un modd ag y maent yn gymwys i'r gymuned sefydlog. Dylai'r polisiau hyn ddiogelu'r rhai ar y safle rhag cymdogion gwrthgymdeithasol ar leiniau eraill, yn ogystal â'u diogelu rhag aelodau o gymunedau sefydlog cyfagos. Yn yr un modd, lle mae preswylwyr gwrthgymdeithasol ar y safle, gall y polisiau hyn ddiogelu cymunedau sefydlog cyfagos.

11.2 Dylai Awdurdodau Lleol gynnwys rheolau'r safle ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel telerau 'Datganedig' yn y cytundeb llain. Bydd y rhain yn cwmpasu nifer o broblemau, gan gynnwys anifeiliaid anwes, aflonyddu geiriol a chorfforol, ymddygiad troseiddol a methiant i gynnal a chadw llain neu gamddefnyddio'r llain neu gyfleusterau / ardaloedd cymunedol.

11.3 Dylai'r cytundeb llain nodi'n glir yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad amhriodol a dylai'r goblygiadau hefyd fod yn glir. Argymhellir bod achosion o dorri'r cytundeb yn y ffordd hon yn cyfiawnhau camau gweithredu difrifol. Fel y trafodwyd yn gynharach, dylai cytundebau llain, gan gynnwys y telerau 'Datganedig' gael eu hesbonio ar lafar i'r preswlydd gan reolwr y safle.

11.4 Dylid hysbysu preswylwyr am yr ymddygiad a ddisgwylir ar y safle ar ôl iddynt gyrraedd, a'u hatgoffa am hynny pan fo angen. Dylai rheolwr y safle sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau a gweithio gyda phreswylwyr, y gymuned sefydlog, yr Awdurdod Lleol a gwasanaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, er mwyn ceisio sicrhau bod y safle yn lle diogel a heddychlon i bob preswlydd fyw ynddo.

11.5 Efallai y bydd disgwyl i reolwr y safle weithredu fel cyfryngwr rhwng preswylwyr y safle neu aelodau o'r gymuned sefydlog er mwyn datrys problemau. Mae'n bwysig bod rheolwr safle yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus wrth ymgymryd â'r rôl hon ac yn cael unrhyw hyfforddiant cysylltiedig a all fod yn fuddiol yn eu barn hwy. Dylai rheolwr y safle ddisgwyl cael cefnogaeth lawn yr Awdurdod Lleol a'r rheolwr gweithredol. Dylai fod modd i reolwr y safle gyfeirio'r mater at y rheolwr gweithredol (neu uwch reolwr) lle mae problemau'n codi lle maent yn teimlo nad ydynt yn gymwys i fynd i'r afael â hwy neu nad oes ganddynt ddigon o brofiad.

11.6 Lle mae ymddygiad anghyfreithlon wedi dod i'r amlwg ar y safle neu yn y cyffiniau, gan breswylwyr neu gymdogion, dylai rheolwr y safle gydgylltu â'r Awdurdod Lleol a'r rheolwr gweithredol a'r heddlu neu'r cydgysylltydd ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau.

11.7 Argymhellir y dylid cadw cofnod cynhwysfawr o ddigwyddiadau a fandaliaeth, wedi'i ategu gan dystiolaeth ar y safle ar ffurf ffotograffau, a dylai'r rhain gael eu rhoi i'r staff priodol.

11.8 Lle y canfyddir bod preswylwyr penodol yn gyfrifol am gamymddwyn difrifol neu fynych, efallai y bydd yr Awdurdod Lleol am ystyried terfynu'r cytundeb llain a throï'r preswlydd allan, yn unol â thelerau'r cytundeb a nodir yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae'n hanfodol bod unrhyw benderfyniadau ynglŷn â therfynu cytundeb yn cael eu gwneud gan y rheolwr gweithredol a'r Awdurdod Lleol, yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb rheolwr y safle.

Adran 12: Gadael Safle

12.1 Os bydd preswylwyr lleiniau preswyl parhaol am adael y safle yn barhaol, mae'n ofynnol iddynt roi rhybudd yn ysgrifenedig i berchennog y safle o leiaf 28 diwrnod cyn yr hoffent adael. Os na roddir y rhybudd hwn, efallai na fydd y cyn-breswilydd yn gallu adhawlio gordaliadau o fewn y cyfnod o 28 diwrnod ar ôl rhoi rhybudd.

12.2 Os bydd preswylwyr lleiniau tramwy am adael y safle cyn y daw eu cytundeb i ben (sef tri mis ar y mwyaf ar unrhyw adeg), y cyfan y mae'n rhaid iddynt ei wneud yw rhoi rhybudd ysgrifenedig i berchennog y safle. Nid oes angen rhoi rhybudd ac nid effeithir ar hawl preswylwyr i adhawlio gordaliadau ar gyfer y cyfnod ar ôl terfynu cytundeb.

12.3 Dylai'r preswilydd roi rhybudd i reolwr y safle ac yna dylai lofnodi dogfennaeth yn cadarnhau'r dyddiad y mae'n bwriadu gadael y llain, pan fydd ar gael i'w hailddyrranu.

12.4 Dylai rheolwr y safle geisio sicrhau bod yr holl filiau sy'n daladwy i'r Awdurdod Lleol neu'r sefydliad rheoli o dan gontract yn cael eu talu gan y preswilydd cyn iddo adael.

12.5 Dylai'r llain a'r bloc amwynder gael eu harchwilio i weld a oes unrhyw ddifrod cyn i breswilydd adael. Dylai preswylwyr fod yn ymwybodol (yn eu cytundeb) y gellir codi ffi am unrhyw ddifrod.

12.6 Dylai rheolwr y safle hysbysu'r preswylwyr bod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r swyddfeydd budd-daliadau, addysg a gwasanaethau iechyd perthnasol cyn iddynt adael. Lle y bo modd, dylid gofyn i breswylwyr adael eu cyfeiriad nesaf ond efallai y bydd rhai tenantiaid yn amharod i wneud hynny neu na fyddant mewn sefyllfa i wneud hynny.

12.7 Dylai rheolwr safle fod yn barod i roi geirda ar gais i unrhyw reolwr safle newydd arfaethedig neu Awdurdod Lleol arall.

Adran 13: Ymgynghori a Chwynion

Ymgynghori ac Ymgysylltu

13.1 O dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori'n uniongyrchol â phreswylwyr ar nifer o faterion. Lle y bwriedir gwneud gwelliannau i'r safle, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ymgynghori â phreswylwyr. Mae hyn yn berthnasol iawn lle mae'r awdurdod yn dymuno ystyried y gwelliannau hyn wrth adolygu ffi'r llain. Yn yr un modd, mae'n rhaid i awdurdodau ymgynghori â chymdeithasau preswylwyr ynglŷn â materion sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r safle. Anogir Awdurdodau Lleol i ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â'r ffordd y caiff y safle ei reoli hyd yn oed os nad oes cymdeithas preswylwyr gymwys yn bodoli.

13.2 Bydd ymgynghori yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o berchenogaeth i breswylwyr yn ogystal â meithrin cydberthnasau da rhwng preswylwyr, rheolwyr ac Awdurdodau Lleol. Bydd yn helpu i ennyn ymddiriedaeth rhwng y partïon a lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro.

13.3 Rhaid i breswylwyr gael 28 diwrnod o rybudd am fanylion unrhyw gynigion i wella'r safle. Dylai'r rhybudd nodi'r cynlluniau'n fanwl, sut y byddant yn effeithio ar ffi'r llain a sut y gall preswylwyr gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dylai safbwyntiau'r preswylwyr gael eu hystyried cyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau.

13.4 Gallai trafodaethau fod ar ffurf fforymau neu weithgorau lleol. Gellir cynnal dau fath o drafodaeth; gellir cynnal cyfarfodydd ar y safle ymhlith preswylwyr a / neu gall grwpiau swyddogol mwy ffurfiol gael eu cynnal. Gellir gwahodd cynrychiolwyr preswylwyr i ymuno â thrafodaethau â darparwyr, megis yr Awdurdod Lleol, yr heddlu a Gwasanaethau Addysg Teithwyr, yn dibynnu ar yr hyn a gynigir. Gall fod yn fuddiol i gynnal y ddau fath o drafodaeth fel y gall y cynrychiolwyr gyflwyno syniadau / pryderon / problemau'r safle.

13.5 Dylai rheolwyr safle sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i arfer eu hawl i gael eu clywed. Mae'r hawl hwn wedi'i gorffori yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn aml, bydd gan blant a phobl ifanc safbwynt gwahanol iawn i'w rhieni ond gall newidiadau effeithio yr un mor sylweddol arnynt hwy. Bydd y rhan fwyaf o brosesau ymgynghori sy'n effeithio ar y safle cyfan hefyd yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n byw ar y safle mewn rhyw ffordd a dylid ceisio eu barn os felly y mae. Wrth ymgynghori â phobl ifanc, argymhellir y dylai rheolwyr safle ddefnyddio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

13.6 Dylai'r grwpiau trafod hyn roi cyfle i gynnal fforwm agored a gonest lle y gall preswylwyr fynegi pryderon ynglŷn â chynlluniau arfaethedig, neu gefnogaeth iddynt, a chytuno ar sut y gellir symud ymlaen.

13.7 Efallai y bydd angen i reolwr y safle hwyluso unrhyw fforymau ar y safle ond dylid disgwyl i'r trafodaethau hyn gael eu cynnal heb y rheolwr weithiau.

13.8 Dylai rheolwr y safle sicrhau bod cynrychiolwyr preswylwyr yn ymwybodol o amseroedd a dyddiadau cyfarfodydd yn ogystal â'r lleoliad a'r agenda arfaethedig.

13.9 Dylid cymryd gofal i sicrhau y caiff safbwyntiau gwirioneddol preswylwyr eu ceisio a'u hystyried yn briodol.

13.10 Byddai ymgynghoriadau ffurfiol ynglŷn â dogfennaeth yn briodol a dylent fod ar gael mewn fformatau eraill yn ogystal ag ar ffurf ysgrifenedig.

13.11 Lle y bydd preswylwyr yn gofyn am hynny, dylai sylwadau, trafodaethau neu adborth ymgynghoriadau fod yn ddiennw.

Cwynion

13.12 Dylai rheolwr y safle weithio gyda'r rheolwr gweithredol er mwyn sicrhau bod polisi cwynion clir a thryloyw ar waith. Dylai hwn fod yn unol â pholisi cwynion mathau eraill o dai cymdeithasol.

13.13 Dylai manylion y weithdrefn fod ar gael i bob preswlydd, dylai ffurflenni fod ar gael gan yr Awdurdod Lleol a dylai rheolwr y safle a phreswylwyr ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl. Er enghraifft, os bydd 'cwynion tai cymdeithasol' cyffredinol yn haeddu cael ymateb o fewn saith diwrnod, dylai preswlydd ar safle Sipsiwn a Theithwyr ddisgwyl cael yr un lefel o ymateb.

13.14 Gall rheolwr y safle ymdrin â chwynion lefel isel ar lafar ar y safle. Bydd angen i'r polisi nodi'r hyn sy'n gyfystyr â mater 'lefel isel' a phryd y dylid cyfeirio cwynion at y rheolwr gweithredol neu'r tîm cwynion.

13.15 Lle y caiff mater ei godi na all rheolwr y safle ymdrin ag ef, neu nad oes modd ymdrin ag ef er boddhad pawb dan sylw, dylid cysylltu â'r rheolwr gweithredol neu dîm cwynion yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol, ac yn ysgrifenedig lle y bo modd. Dylai preswylwyr gael gwybod â phwy y gallant gysylltu os ydynt am wneud cwyn ynglŷn â rheolwr y safle. Ni ddylai cwynion o'r fath byth gael eu codi drwy reolwr y safle dan sylw.

13.16 Dylai adborth ar hynt y gŵyn fod ar gael drwy gydol y broses, yn unol â pholisi cwynioni yr Awdurdod Lleol.

Atodiad 1 – Sefydliadau Cymorth

Tîm Cynhwysiant

Is-adran Dyfodol Tecach
Llywodraeth Cymru
Y llawr cyntaf Gogledd
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

FairerFuturesMailbox@wales.gsi.gov.uk

<http://www.llyw.cymru/sipsiwnteithwyr>

Sipsiwn a Theithwyr Cymru (Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd yn flaenorol)

Llawr Cyntaf – Gorllewin
113-116 Stryd Bute
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5EQ
029 2021 4411
info@gtwales.org.uk

Teithio Ymlaen / Travelling Ahead (Achub y Plant / Save the Children Cymru)

8 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd
CF11 9LJ
029 2039 6838
travellingahead@savethechildren.org.uk
<http://www.travellingahead.org.uk>

Prosiect Undod

Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton
Penfro
Sir Benfro
SA71 4LS
unity@pembrokeshire.gov.uk

Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani

Temple Court
13 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
isaacblake@romaniarts.co.uk
<http://www.romaniarts.co.uk>

Urdd Siewmyn Prydain Fawr

De Cymru –

110 New Dock Road

Llanelli

SA15 2HH

07949 289 075

Sgwales@talktalk.co.uk

Gogledd Cymru –

11 St. Mary's Place

Bury

Swydd Gaerhirfryn

BL9 0DZ

01617 629 502

leesashowmensguild@yahoo.com

<http://www.showmensguild.co.uk>

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Tŷ Llywodraeth Leol

Drake Walk

Caerdydd

CF10 4LG

029 2046 8600

enquiry@wlga.gov.uk

<http://www.wlga.gov.uk>

Tîm Cyngor i Deithwyr

Partneriaeth Cyfraith y Gymuned

Llinell gymorth genedlaethol i Deithwyr – 0121 685 8677

(Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm)

Achosion brys yn unig – 07768 316755

<http://www.communitylawpartnership.co.uk>

The Travellers School Charity

Tŷ Loveden House

26 Stryd y Bont

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 1QB

07786 466 107

info@travellersschool.org.uk

<http://www.travellersschool.org.uk>

Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn

c/o Derbyshire Gypsy Liaison Group

Unit 3

Molyneux Business Park

Whitworth Road

Darley Dale

Matlock

DE4 2HJ

01629 732744

info@nationalgypsytravellerfederation.org

<http://www.nationalgypsytravellerfederation.org>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

1 Caspian Point

Caspian Way

Caerdydd

CF10 4DQ

029 2044 7710

wales@equalityhumanrights.com

<http://www.equalityhumanrights.com/cy/hafan/cymru>

The Traveller Movement (Irish Travellers Movement in Britain yn flaenorol)

The Resource Centre

356 Holloway Road

Llundain

N7 6PA

020 7607 2002

info@travellermovement.org.uk

<http://www.travellermovement.org.uk>

Friends, Families and Travellers

Community Base

113 Queens Road

Brighton

BN1 3XG

01273 234777

Fft@gypsy-traveller.org

www.gypsy-traveller.org

Tai Pawb

8 Coopers Yard

Centre Court

Curran Road

Caerdydd

CF10 5NB

02920 537632

info@taipawb.org

Cymorth Cynllunio Cymru

Llawr Cyntaf

174 Whitchurch Road

Caerdydd

CF14 3NB

029 2062 5000

<http://www.planningaidwales.org.uk>

Cyngor y Sipsiwn (dros Addysg, Diwylliant, Lles a Hawliau Sifil)

8 Hall Road

Aveley

Romford

Essex

RM15 4HD

07963 565 952

info@gypsy-association.com

<http://www.gypsy-association.com>

Roma Support Group

Blwch Post 23610

Llundain

E7 0XB

020 7511 0800

info@romasupportgroup.org.uk

<http://www.romasupportgroup.org.uk>

Travellers Aid Trust

Blwch Post 16

Llangyndeyrn

Cydweli

SA17 5YT

www.travellersaidtrust.org

Advisory Council for the Education of Romany and other Travellers (ACERT)

Little Kiln

Pottery Road

Bovey Tracey

Dyfnaint

TQ13 9DS

020 8374 1286

Info@acert.org.uk

<http://www.acert.org.uk>